

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol

Chwefror 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCymunedau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCymunedau@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol

Chwefror 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCymunedau

Cadeirydd y Pwyllgor:



John Griffiths AS
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AS
Llafur Cymru



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Laura Anne Jones AS*
Ceidwadwyr Cymreig



Mandy Jones AS
Grŵp y Gyng rhair Annibynnol
dros Ddiwygio

*Nid oedd Laura Anne Jones AS yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mark Isherwood AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cefndir	8
2. Y sector gwirfoddol yng Nghymru	10
Heriau i'r sector cyn y pandemig	12
Colli arbenigedd am Gymru mewn elusennau cenedlaethol	13
Ymateb i'r llifogydd	14
3. Ymateb i'r pandemig	15
Ymateb y sector i'r pandemig	15
Rôl y sector mewn cynllunio ar gyfer argyfwng ac ymateb i argyfwng	16
Defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau o bell	17
Cyfathrebu	18
Yr effaith ar y sector	19
Ein barn ni	20
4. Gweithio mewn partneriaeth	22
Heriau gweithio mewn partneriaeth	23
Cydgynhyrchu	24
Ein barn ni	25
5. Gwirfoddoli	26
Gwirfoddoli a'r pandemig	26
Yr "ymchwydd" mewn gwirfoddoli	26
Newid mewn demograffeg gwirfoddolwyr a chynnal y brwdfrydedd cychwynnol	28
Cymorth cydfuddiannol a grwpiau cymunedol	29
Ein barn ni	30
6. Cyllid a Chymorth	33
Colli incwm	33
Cymorth a oedd ar gael yn ystod y pandemig	35
Pwysigrwydd hyblygrwydd cyllido	36

Y darlun cyllid yn y dyfodol	37
Cyllid ar gyfer y sector gwirfoddol BAME.....	38
Cyllid craidd a defnyddio cronfeydd wrth gefn	39
Mesur gwerth cymdeithasol y sector gwirfoddol	40
Ein barn ni	41
7. Adferiad ac ailadeiladu	44
Atal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	45
Unigrwydd a theimlo'n ynysig	46
Ein barn ni	46
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	49
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	51
Gwybodaeth ychwanegol	52

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y mae'r strwythur gwirfoddol presennol wedi'i chwarae wrth wella'r ymateb i'r pandemig. Byddem yn annog unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynnal seilwaith presennol y trydydd sector, ac i geisio gweld sut y gellir gwella'r strwythurau hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn

.....Tudalen 12

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw newid sylweddol ym mhresenoldeb y sector gwirfoddol yng Nghymru er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i ymgysylltu â'r elusennau hyn a'u hannog i adfer eu presenoldeb yng Nghymru pan fyddant mewn sefyllfa i wneud hynny.Tudalen 14

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu rôl y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys:

- Nodi a chydabod yn glir rôl hanfodol y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau;
- Rhannu arferion gorau o'r ymateb i'r pandemig a'r llifogydd yn 2020; ac
- Asesu i ba raddau y mae'r sector gwirfoddol wedi'i integreiddio i strwythurau cynllunio ar gyfer argyfwng ffurfiol ac anffurfiol a sut y gellir cryfhau partneriaethau.

.....Tudalen 20

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i sicrhau bod y strategaeth ddigidol sydd ar y gweill ar gyfer Cymru yn adlewyrchu gwaith y sector gwirfoddol yn llawn a'r symud tuag at ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.

.....Tudalen 21

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn ystod y pandemig. Dylai'r adolygiad nodi arferion da y gellir eu hefelychu ledled Cymru ac ystyried a oes angen cryfhau mecanweithiau ffurfiol i sicrhau bod cydgynhyrchu a gwaith partneriaeth ystyrlon rhwng cyrff statudol, cyrff anstatudol, a dinasyddion.Tudalen 25

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall gwirfoddoli gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar ôl COVID-19.....Tudalen 31

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen o rymuso cymunedau ledled Cymru gyda'r sector gwirfoddol, gan weithredu fel gwladwriaeth alluogi ar gyfer gweithredu cymunedol. Rydym yn cefnogi galwad CGGC y dylai hyn gynnwys Cronfa Cyfoeth Gymunedol a deddfwriaeth i ddarparu mwy o allu i gymunedau gymryd rhan mewn gweithredu lleol.....Tudalen 31

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i alluogi grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd yn ystod y pandemig sydd am barhau ac sydd wedi bod yn cynorthwyo eu cymunedau lleol yn llwyddiannus, i dderbyn y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu gwaith.Tudalen 31

Argymhelliad 9. Gan adeiladu ar Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gynyddu cydnerthedd y sector a'i allu i chwarae ei ran wrth roi cymorth yn y fan a'r lle i gymunedau yn ystod yr adferiad. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.....Tudalen 41

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Cyllidwyr Cymru i helpu cyllidwyr i barhau i rannu gwybodaeth a chydweithio ar ôl y pandemig.....Tudalen 42

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n briodol, archwilio ac ymchwilio i ganiatáu i gyllid heb ei wario gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.
.....Tudalen 42

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu sefydliadau sector gwirfoddol BAME, wrth ystyried cyllid ar gyfer y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw rwystrau ychwanegol y gallai grwpiau BAME eu hwynebu wrth gael cyllid a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a gweithio i leihau'r rhwystrau hyn.
.....Tudalen 42

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a myfyrio ar ganfyddiadau adroddiad **Yn Uchel ac yn Groch** Sefydliad Cymunedol Cymru ac annog cyllidwyr i gefnogi costau craidd fel bod gan sefydliadau y rhyddid i addasu mewn sefyllfaoedd sy'n bythol newid er mwyn cynnal a datblygu canlyniadau gwasanaethau neu raglenni allweddol.Tudalen 42

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch effaith rhwymedigaethau rhyngwladol cyfredol mewn perthynas â rheolau Cymorth Gwladwriaethol ar roi cymorth i'r sector manwerthu elusennol.Tudalen 43

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall y sector gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus, meithrin cydnerthedd cymunedol cynaliadwy a llesiant.Tudalen 47

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn rhaglenni'r sector gwirfoddol sy'n cefnogi'r adferiad, mewn modd tebyg i Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.Tudalen 47

Argymhelliad 18. Mewn gwaith adfer yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob rhan o'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wrth lunio polisiau a darparu gwasanaethau. Dylai hyn hefyd arwain at fwy o waith partneriaeth y tu hwnt i'r adferiad a chynnwys lleisiau'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.....Tudalen 47

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar effeithiolrwydd y strategaeth Cysylltu Cymunedau wrth fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig o fewn 12 mis.Tudalen 48

Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach sut y mae modd defnyddio technoleg newydd, yn cynnwys yr ap sy'n cael ei ddatblygu gan Hafod, i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried problemau'n ymwneud â'r rhaniad digidol a sicrhau bod atebion yn ystyried problemau'n ymwneud â mynediad digidol.Tudalen 48

1. Cefndir

Ar ôl edrych ar effaith COVID-19 ar draws ein cylch gwaith, penderfynasom wneud darn o waith â ffocws yn edrych ar y sector gwirfoddol. Fel rhan o'r gwaith hwn, aethom ati i gymryd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, ynghyd â gwneud gwaith ymgysylltu yn gwrando ar staff rheng flaen a gwirfoddolwyr.

1. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar effaith COVID-19. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn edrych ar effaith y pandemig ar anghydraddoldebau¹, yn ogystal â chraffu ar yr effaith ar lywodraeth leol a thai. Ar ddechrau tymor yr hydref, fe benderfynasom wneud darn o waith â ffocws yn edrych ar yr effaith ar y sector gwirfoddol.

2. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ysgrifenedig gennym yn gofyn am farn ar effaith y pandemig ar y sector gwirfoddol, ond gan edrych yn benodol ar y canlynol:

- Cyllid a darpariaeth gwasanaethau;
- Effeithiolrwydd cymorth gan lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol;
- Gwirfoddoli a chadernid cymunedau; ac
- Arferion da a chyfleoedd a heriau yn y dyfodol.²

3. Wrth gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom yn glir nad oeddem yn disgwyl cyflwyniadau hir, gan ein bod am annog ymatebion gan gynifer â phosibl o bobl a oedd â barn neu brofiad i'w rannu. Cawsom 27 o gyflwyniadau ysgrifenedig, ac maent i gyd i'w gweld ar ein [gwefan](#).

4. Aethom ati i gynnal saith sesiwn tystiolaeth lafar, gydag ystod o randdeiliaid allweddol gan gynnwys y trydydd sector; cyllidwyr; a'r GIG a Llywodraeth Leol. Daethom â'n sesiynau tystiolaeth lafar i ben trwy gymryd tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

5. Fe wnaethom hefyd gynnal saith grŵp ffocws ar-lein gyda 42 o bobl o bob un o bum rhanbarth etholiadol y Senedd. Roedd yn gyfle inni glywed yn uniongyrchol gan wirfoddolwyr a staff rheng flaen. Daethpwyd o hyd i'r cyfranogwyr trwy nifer o sefydliadau a fforymau, gan gynnwys:

- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol;
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuencid Cymru ("EYST");

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig**, Awst 2020

² **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol, Hydref 2020**

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ("CGGC");
- Cyngor Rhyng-ffydd Cymru;
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector; a
- Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

6. Mae crynodeb o'r themâu allweddol a glywsom yn ystod y sesiynau hyn ar gael **ar-lein**. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd, yn enwedig a ninnau'n gwybod fod cryn bwysau ar adnoddau ac amser bobl wrth iddynt ddarparu gwasanaethau allweddol i gefnogi cymunedau ledled Cymru.

2. Y sector gwirfoddol yng Nghymru

Cyn y pandemig, roedd y sector gwirfoddol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn cefnogi gwasanaethau statudol, ynghyd â darparu gwaith ataliol hanfodol. Roedd y sector yng Nghymru yn amrywiol a bywiog, er ei fod eisoes yn wynebu nifer o heriau sylweddol.

7. Roedd y sector gwirfoddol yng Nghymru, cyn y pandemig, yn fawr ac yn llawn amrywiaeth, yn amrywio o grwpiau cymunedol bach sy'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, heb ddim incwm; i sefydliadau cenedlaethol mawr neu hyd yn oed amlwladol a gefnogir gan staff proffesiynol. Roedd yn cynnwys nid unig elusennau, ond hefyd fentrau cymdeithasol, sefydliadau cymorth a lles; grwpiau cymunedol, a chymdeithasau tai ymhlith eraill. Roedd y sector gwirfoddol yn gweithio ar draws holl feysydd gweithgarwch datganoledig a heb ei ddatganoli, ond addysg/hyfforddiant, iechyd a chwaraeon oedd â'r nifer fwyaf o sefydliadau yn y sector gwirfoddol.³

8. Mae Llywodraeth Cymru yn tueddu i ddefnyddio'r term "trydydd sector" i gwmpasu'r ystod o weithgarwch a weir gan y sector gwirfoddol. Mae ei Chynllun y Trydydd Sector⁴ statudol yn diffinio'r sefydliadau hyn fel a ganlyn:

- "yn gyrrff annibynnol, anllywodraethol;
- wedi eu sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain;
- yn cael eu 'gyrru gan werth' a'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw'n unig;
- wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gweddill ariannol i hybu eu nodau cymdeithasol ac er budd pobl a chymunedau yng Nghymru."⁵

9. Yn ôl CGGC mae 32,000 o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru, ac mae 7,300 ohonynt yn elusennau. Elusennau bach a micro sy'n dominyddu'r sector yng Nghymru. Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ficro-elusennau yn y DU (53%), ac mae 32% arall yn elusennau bach. Diffinnir micro-elusen fel un sydd â llai na £10,000 o incwm, tra bod gan elusen fach lai na £100,000 o incwm. Mae CGGC hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod incwm elusennol y pen yn hanner yr hyn ydyw i elusennau sydd wedi'u lleoli yn Lloegr

³ COV.VS.08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC

⁴ Gwneir y Cynllun o dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun yn nodi sut y maent yn cynnig, wrth arfer eu swyddogaethau, hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol. Mae'r cynllun hwn wedi bod ar waith ers 21 mlynedd.

⁵ Llywodraeth Cymru, Cynllun y Trydydd Sector, Ionawr 2014, paragraff 1.12

a'r Alban. (tua £400 y pen yng Nghymru ac £800 yn Lloegr a'r Alban). Maent yn priodoli hyn yn rhannol i leoliad swyddfeydd cofrestredig elusennau mawr sy'n gweithredu ledled y DU, ac sydd wedi'u cofrestru y tu allan i Gymru.⁶

10. Mae'r strwythurau sy'n sail i'r sector gwirfoddol yn unigryw i Gymru, ac yn wahanol iawn i'r rhai yn Lloegr. Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog y seilwaith hwn fel rhywbeth eithriadol o bositif yn ystod y pandemig.⁷

11. Dywedodd WISERD wrth edrych ar y gwahanol ddulliau gweithredu ledled y DU, fod Cymru yn nodedig am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda a thrwy systemau sefydliadol presennol. Fe wnaethant ychwanegu, wrth fodloni gofynion yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006:

"...successive Welsh Governments have invested in the third sector and supported mechanisms for joint-working. It is notable that through the pandemic, the Welsh Government has continued to work through these existing structures, strengthening but not replacing them."⁸

12. CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ledled Cymru wedyn mae 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ("CGSau") sy'n gweithio i gefnogi a datblygu'r sector trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i sefydliadau lleol. Mae CGGC a'r CGS yn gweithio gyda'i gilydd fel Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r Trydydd Sector, gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd, a chyhoeddir y cofnodion ar **wefan** Llywodraeth Cymru.

13. Un o'r themâu allweddol a glywsom trwy'r dystiolaeth i gyd oedd effeithiolrwydd y strwythurau hyn wrth ymateb i'r pandemig. Cydnabu CGGC y cynllun trydydd sector unigryw a'r seilwaith trydydd sector unigryw yng Nghymru, a bod hyn wedi arwain at syniadau sy'n cael eu datblygu'n lleol, atebion lleol i broblemau lleol a oedd yn aml y rhai cyflymaf a mwyaf effeithiol yn wythnosau cynnar y pandemig.⁹ Fe wnaethant hefyd ddweud wrthym am bwysigrwydd cydbwyso ymyriadau lleol a chenedlaethol:

".....'A local solution might often be best. If a national solution is required, then let's look at it as a national support solution.' Let's, for goodness' sake, not look at a national smothering blanket, because nobody wants anybody to be smothered. People want people to be supported, and that co-produced, local connection, whether that's through the unique infrastructure or through new, informal mutual aid groups and activities in local neighbourhoods, there's space for all of it."¹⁰

14. Nododd CLILC fod Prif Weithredwr CGGC, ar ddechrau'r pandemig, yn bresennol mewn cyfarfod lefel uchel cynnar o grŵp bach o Weinidogion felly roedd y sector gwirfoddol a llywodraeth leol yn yr

⁶ COV.VS.08.Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [11]

⁸ COV.VS.20.Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD)

⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [49]

¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [50]

ystafell gyda Gweinidogion cyn ambell gyhoeddiad arwyddocaol a oedd i gael ei wneud gan y Prif Weinidog a Phrif Weinidog Prydain.¹¹

15. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod strwythurau'r trydydd sector wedi profi i fod yn gadarn iawn, gan ychwanegu eu bod wedi ennill eu plwyf ar lefel genedlaethol i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â nhw, gan eu galluogi i wneud hyn gyda'r nifer fawr o wahanol sefydliadau yn y sector. Cyfarfu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector â'r Cwnsler Cyffredinol hefyd pan oedd yn paratoi'r Cynllun Adfer ar ôl COVID-19.¹² Cydnabu'r Dirprwy Weinidog hefyd ei bod yn bwysig bod y trydydd sector yn cael ei gadw yn y meysydd polisi hynny fel y fforymau cydnerthedd rhanbarthol a lleol.¹³

16. Er y byddwn yn archwilio gweithio mewn partneriaeth yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, roeddem o'r farn ei bod yn bwysig myfyrio ar y strwythurau cenedlaethol a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Nid yw strwythurau o'r fath yn cael eu sefydlu ar hap, ac ni allwn gymryd yn ganiatol y byddant yn bodoli bob amser. Maent yn gofyn am waith, ac maent yn gofyn am adnoddau. Mae'n amlwg bod y strwythurau hyn wedi helpu i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn gallu cyfrannu at yr ymateb i'r pandemig o'r cychwyn cyntaf. Mae cynnal y ddeialog honno yn ystod y pandemig, a galluogi'r sector gwirfoddol i gael llinell uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, ond hefyd i wasanaethau statudol lleol pwysig eraill fel Byrddau Iechyd a Llywodraeth leol yn amlwg wedi chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb i'r pandemig.

17. Ni ddylem gymryd y seilwaith hwn yn ganiataol. Credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraethau Cymru yn y dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd y strwythurau hyn ac yn edrych am ffyrdd i'w cryfhau drwy ei Chynllun y Trydydd Sector. Bydd rhai o'n hargymhellion pellach, fel y rhai sy'n ymwneud â'r rôl ffurfiol y gall y sector gwirfoddol ei chwarae mewn cynllunio ar gyfer argyfwng yn gysylltiedig â hyn hefyd.

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y mae'r strwythur gwirfoddol presennol wedi'i chwarae wrth wella'r ymateb i'r pandemig. Byddem yn annog unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynnal seilwaith presennol y trydydd sector, ac i geisio gweld sut y gellir gwella'r strwythurau hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn.

Heriau i'r sector cyn y pandemig

18. Er bod ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar effaith y pandemig i raddau helaeth, pwysleisiodd llawer fod y sector yn wynebu cyfnod heriol ac ansicr hyd yn oed cyn mis Mawrth 2020. Tynnodd Hafod sylw at effaith barhaus blynyddoedd o gyni a thoriadau yn y sector cyhoeddus.¹⁴ Soniodd y Rhwydwaith Cydgyhyrchu am doriadau mewn cyllid a oedd yn digwydd ar yr un pryd â galw cynyddol am

¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [35]

¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [18]

¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [60]

¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [110]

wasanaethau.¹⁵ Fe wnaeth eraill, fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, dynnu sylw at yr ansicrwydd parhaus ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd, a sut y bydd Cronfa Ffyniant a Rennir y DU (a fydd yn disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE) yn gweithio.¹⁶

Colli arbenigedd am Gymru mewn elusennau cenedlaethol

19. O ganlyniad i rai o'r heriau hyn, gwyddom fod rhai elusennau cenedlaethol eisoes yn ailstrwythuro neu'n ailystyried lefel eu presenoldeb yng Nghymru. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod o'r farn bod y broses hon yn cael ei chyflymu wrth i effaith y pandemig daro.

20. Dywedodd CGGC fod hyn yn wir ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau mawr â phencadlys corfforaethol y tu allan i Gymru, gan arwain at leihad yn y staff a gyflogir a lefel y gweithgareddau yng Nghymru.¹⁷ Tynnodd y Moondance Foundation sylw at y ffaith fod tair elusen ganser wedi diswyddo swydd Pennaeth Cymru.¹⁸ Ymhelaethodd y Moondance Foundation mewn tystiolaeth lafar fod rhai elusennau cenedlaethol yn creu un swydd Cyfarwyddwr i gwmpasu'r holl genhedloedd datganoledig. Roedd ganddynt bryderon ynghylch y dull hwn:

"I think, if anything, COVID has emphasised just how differently the Governments of the [UK] nations work, and it is concerning, because a number of cancer charities are obviously struggling and are looking to reduce their costs. Just how that voice will then input into Wales—because, really, a national director might not know or understand the workings of what happens in Wales, and therefore they miss the point, and they really don't represent the people. So, that's been a concern that we've seen in a number of cancer charities."¹⁹

21. Rhannodd CGGC y pryderon hyn gan ddweud y bydd diffyg arbenigedd Cymreig yn effeithio ar allu'r sector i gyfrannu at ddatblygiad polisi ynghyd â sicrhau bod polisi o'r fath yn cael ei gydgyhyrchu. Fe wnaethant ddweud wrthym y byddai hyn nid yn unig yn effeithio ar ddatblygiad polisi, ac ymgysylltu ond y byddai hefyd yn effeithio ar arfer ar lawr gwlad o ran unrhyw weithgareddau rhanbarthol neu leol y gallai rhai o'r elusennau hynny fod yn rhan ohonynt.²⁰

22. Gosododd Conffederasiwn y GIG y golled bosibl hon yng nghyd-destun y cynnydd ym mhwerau'r Senedd dros y blynyddoedd diwethaf; a datblygu manifestos y pleidiau cyn etholiadau'r Senedd yn ddiweddarach eleni (2021). Fe wnaethant dynnu sylw at rôl allweddol sefydliadau'r trydydd sector sef:

"....provide information, research, knowledge and intelligence which enable political parties to put forward calls and pledges that will improve services for the people of Wales."²¹

23. Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid yn hyn o beth. Mae hyn yn destun pryder arbennig yn y meysydd hynny, fel iechyd ac addysg, sydd wedi'u datganoli. Bydd yn anoddach i elusennau sydd â

¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [16]

¹⁶ [COV VS 1 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, paragraff 4.1](#)

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [34]

¹⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig COV VS 04 Moondance Foundation](#)

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [251]

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [35]

²¹ [COV VS 13 Conffederasiwn y GIG, paragraff 40](#)

phresenoldeb neu arbenigedd Cymreig cyfyngedig neu ddim o gwbl eirioli ar ran y bobl y maent yn eu cefnogi yng Nghymru; i lywio datblygiad polisi neu help i gynorthwyo gyda chraffu. Bydd hyn yn cael effaith ar allu Senedd yn y dyfodol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif neu i unrhyw AS unigol eirioli ar faterion penodol.

24. Mae'n siomedig bod rhai elusennau cenedlaethol wedi penderfynu penodi un Pennaeth y Cenhedloedd, pan fydd y cyd-destun gwleidyddol, yn ogystal â'r gweithredu o ddydd i ddydd ar lawr gwlad, yn sylweddol wahanol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth gwrs, rydym yn deall y sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu llawer o elusennau, a'r penderfyniadau anodd sy'n eu hwynebu. Bydd y sector gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol yn yr adferiad ar ôl COVID-19. Y gobaith felly yw mai dim ond rhywbeth dros dro fydd unrhyw ostyngiad ym mhresenoldeb staff yng Nghymru; ac unwaith y bydd y sefyllfa ariannol yn gwella, gall y rhai sydd wedi gorfod lleihau eu presenoldeb ddychwelyd i Gymru.

25. Unwaith y byddwn yn symud allan o'r argyfwng presennol ac yn dechrau'r adferiad, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i geisio annog y sefydliadau gwirfoddol hynny i ailsefydlu eu presenoldeb yng Nghymru. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru fonitro pa elusennau sydd wedi tynnu unrhyw staff neu swyddfeydd sylweddol o Gymru, i'w galluogi i ddechrau trafodaethau gyda'r sefydliadau perthnasol i'w hannog i ddychwelyd pan fydd yr amser yn iawn.

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw newid sylweddol ym mhresenoldeb y sector gwirfoddol yng Nghymru er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i ymgysylltu â'r elusennau hyn a'u hannog i adfer eu presenoldeb yng Nghymru pan fyddant mewn sefyllfa i wneud hynny.

Ymateb i'r llifogydd

26. Nid y pandemig oedd yr unig argyfwng i ddigwydd yng Nghymru yn 2020. Wythnosau'n unig cyn dechrau'r pandemig, cafwyd llifogydd mewn ardaloedd megis Rhondda Cynon Taf. Dywedodd y Moondance Foundation fod dioddefwyr y llifogydd wedi cael eu hanghofio i raddau ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, a'u bod wedi darparu mwy o gymorth yn yr ardaloedd hyn.²²

27. Soniodd y Cyngorydd Andrew Morgan a oedd yn siarad â ni yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd CLILC am ei brofiad yn ei awdurdod lleol ei hun sef Rhondda Cynon Taf, gan ddweud mai'r llifogydd oedd y pwyslais gwirioneddol cyntaf gyda gwirfoddoli cymunedol, lle gwelwyd llu o wirfoddolwyr, grwpiau dros dro, asiantaethau yn dod at ei gilydd.²³ Teimlai fod y profiad hwn yn golygu bod ei gyngor mewn sefyllfa well nag eraill, pan oedd yn rhaid iddynt wedyn sefydlu mecanweithiau tebyg i ymateb i'r pandemig.

28. Wrth fyfyrto ar rôl ac effaith y sector gwirfoddol mewn perthynas â'r pandemig, mae'n bwysig nad ydym yn anghofio ei rôl wrth ymateb i'r llifogydd. Rydym wedi cyfeirio at hyn yn Error! Reference source not found.

²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [176]

²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [71]

3. Ymateb i'r pandemig

Chwaraeodd y sector gwirfoddol rôl hanfodol a hollbwysig wrth ymateb i heriau'r pandemig. Roedd ystwythder y sector wrth ymateb i wahanol anghenion ledled Cymru yn dipyn o gamp, a hynny er gwaethaf rhai o'r anawsterau roedd y sector eisoes yn eu hwynebu cyn y pandemig.

Ymateb y sector i'r pandemig

29. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a'n profiadau ein hunain o ddyddiau cynnar COVID-19, bod y sector gwirfoddol wedi chwarae rhan ganolog yn yr ymateb. Fe wnaeth grwpiau hirsefydledig, lleol a chenedlaethol, addasu eu gwasanaethau a'u ffyrdd o weithio ar unwaith i ddelio â'r materion brys. Ar yr un pryd, ffurfiwyd llawer o grwpiau hyperleol anffurfiol i ddelio ag anghenion yn eu cymunedau lleol. Clywsom am gynifer o enghreifftiau da o'r sector gwirfoddol yn mynd yr ail filltir i gefnogi unigolion a gwasanaethau cyhoeddus a oedd o dan gryn straen. Mae'n amlwg y byddai'r ymateb i'r pandemig wedi bod yn wannach o lawer pe na bai'r sector gwirfoddol naill ai heb ymateb, neu wedi cael ei atal rhag ymateb, yn y ffordd y gwnaeth.

30. Rydym yn cymeradwyo gwaith caled yr holl sefydliadau ar draws y sector gwirfoddol, y staff a'r gwirfoddolwyr am ddod ynghyd o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Mae'r sector yn cael ei staffio gan lawer o unigolion ymroddgar a phrofiadol, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol cymwysedig, sy'n cael eu hysgogi gan awydd di-sigl i gynorthwyo pobl. Diolch i'r ymroddiad a'r ysgogiad galwedigaethol hwn, mae staff wedi mynd yr ail filltir gydol y pandemig. Rydym hefyd yn cydnabod yn benodol y gwaith anffurfiol a wneir ar lefel hyperleol gan grwpiau cymorth cydfuddiannol, cymdogion, ffrindiau a theulu. Fe wnaethant ddangos pobl, cymunedau a Chymru ar eu gorau. Mae hyd a lled y cyfraniadau yn rhy fawr o lawer i'w crynhoi yn yr adroddiad, ond byddem yn cyfeirio at y cyfoeth o enghreifftiau yn ein tystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

31. Fel i ni nodi ym mharagraff 13, roedd pwysigrwydd ymateb lleol i'r argyfwng cychwynnol yn hanfodol yn ystod yr wythnosau cyntaf, ac roedd y strwythurau a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru wedi helpu i gefnogi hyn. Cytunodd nifer o dystion mai mentrau lleol oedd y rhai mwyaf effeithiol yn aml yn y dyddiau cynnar. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau fod sefydliadau cymunedol wedi symud eu gweithrediadau bron yn syth ar ôl cyhoeddi'r cyfyngiadau symud. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddelio ag anghenion sylfaenol fel bwyd, meddyginiaethau, a rhannu gwybodaeth allweddol. Dywedwyd bod gan y grwpiau sefydledig hyn eisoes y seilwaith i fod yn sail i ymatebion cymunedol gan fod ganddynt offer, adeiladau a cherbydau, yn ogystal â gwybodaeth leol, ac roedd y rhain i gyd wedi helpu i bweru'r ymateb.²⁴

²⁴ COV.VS.10.Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

32. Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys y sector fel ymatebwr brys ystwyth gan adleisio'r sylwadau a wnaed gan eraill fod y sector yn gallu datblygu atebion lleol i broblemau lleol yn gyflym iawn.²⁵ Dywedodd CLILC fod cymunedau wedi dod at ei gilydd dros eu hunain mewn gwirionedd – a hynny'n gyflymach o lawer nag y byddai CLILC wedi gallu gwneud mewn rhai achosion yn ôl pob tebyg.²⁶

Rôl y sector mewn cynllunio ar gyfer argyfwng ac ymateb i argyfwng

33. Byddwn yn edrych yn fanylach ar y gwaith partneriaeth gydol y pandemig yn y bennod nesaf. Fodd bynnag, o ran yr ymateb uniongyrchol, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at fwch posibl o ran y strwythurau cynllunio ar gyfer argyfwng ffurfiol.

34. Dywedodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe ("SCVS") y gallai'r sector fod wedi cael ei gynnwys yn y gwaith cynllunio ar gyfer argyfwng y pandemig COVID-19 o'r dechrau'n deg. Er eu bod yn deall pam na chawsant eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf, teimlent eu bod fel pe bai wedi cael eu cynnwys yn hwyr iawn yn y gwaith, yn y dyddiau cynnar iawn, iawn hynny. Unwaith roeddent wedi'u cynnwys, teimlai'r Cyngor eu bod wedi llwyddo i wneud rhai enillion a chynnydd sylweddol trwy ddod ynghyd a manteisio ar gryfderau pob asiantaeth unigol.²⁷

35. Ategwyd hyn gan gydweithwyr o'r sector iechyd. Dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y byddai rhywfaint o bwysio a mesur ynglŷn â sut yr ydym yn gweld y trydydd sector a'r sector cymunedol fel partner ymateb brys cyfartal. Roeddent yn cytuno bod y sectorau hyn wedi chwarae rôl bwysig iawn a bod cyfle i feddwl am arfer gorau yn y dyfodol ar gyfer cynllunio ymateb.²⁸ Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru ei bod yn bwysig iawn bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys mewn gwaith cynllunio ar gyfer argyfwng yn y dyfodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.²⁹

36. Fel y disgrifir yn fanylach ym mharagraffau 63 - 64, mae cynnwys y sector gwirfoddol mewn gwaith cynllunio ar gyfer argyfwng yn talu ar ei ganfed. Mae'n helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod gweithio cydgysylltiedig yn digwydd yn effeithiol.

37. Dywedodd Sefydliad Cymunedol Cymru nad oedd cyllidwyr yn rhan o'r strwythurau gwneud penderfyniadau yn lleol nac yn rhanbarthol. Dywedwyd bod hyn er gwaethaf ymdrechion i ymgysylltu ochr yn ochr â Fforwm Cymru Gydnerth a phartneriaethau lleol. Roeddent yn teimlo y gallai hyn fod yn fater pwysicach mewn senario argyfwng gwahanol lle gallai fod yn hanfodol bwysig bod strategaethau cyllido wedi'u halinio. Credent fod angen cysylltiadau cryfach rhwng cyllidwyr a'r gymuned cydnerthedd.³⁰

38. Mae'n amlwg bod y seilwaith sector gwirfoddol i ni sôn amdano yn y bennod flaenorol, wedi bod yn bwysig er mwyn sicrhau ymateb effeithiol. Fodd bynnag, ymddengys bod bwlch wedi bod yn y strwythurau cynllunio brys a oedd yn golygu nad oedd y sector gwirfoddol wedi'i gynnwys yn yr ymateb

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [14]

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [70]

²⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [103]

²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [40]

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [99]

³⁰ [COV.VS.03.Tystiolaeth ysgrifenedig.Sefydliad.Cymunedol.Cymru](#)

cynllunio ar gyfer argyfwng critigol ym mhob achos. Mae'n amlwg bod rhywbeth i'w ddysgu o brofiad Mantell Gwynedd yn y Gogledd, a oedd yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o gynllunio cydnerthedd. Credwn fod angen ystyried y mater hwn yn ofalus, ac felly rydym wedi tynnu sylw at hyn yn **Error! Reference source not found.**

Defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau o bell

39. Roedd y cyfyngiadau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â COVID-19, yn enwedig y gofynion i aros gartref a chadw pellter cymdeithasol, yn golygu bod yn rhaid darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Yn yr un modd â phob sector arall, bu'n rhaid i'r sector gwirfoddol fynd i'r afael â dibyniaeth gynyddol ar ddigidol o ran staff yn symud i weithio gartref lle'r oedd modd, i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol, a recriwtio, hyfforddi a chadw gwirfoddolwyr. Disgrifiodd yr holl randdeiliaid yr heriau a'r cyfleoedd a gododd o'r trawsnewid i ddigidol.

40. Dywedodd Fforwm Cyllidwyr Cymru fod cyflwyno digidol yn thema allweddol ac:

"Anecdotally we have evidence that there were some groups that failed to make this work, with digital exclusion, and for staff access to devices, connectivity and training all proving to be issues. Some groups found that engagement wasn't as fruitful, but others, especially those working with children and young people on the autism spectrum or with emotional challenges, found digital sessions to be good."³¹

41. Un o'r meysydd pryder penodol yw bod y rhaniad digidol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau penodol, y rhai sydd eisoes yn wynebu rhwystrau eraill yn aml. Amlygodd Conffederasiwn y GIG nad yw gwasanaethau digidol yn arbennig yn gweithio cystal i bobl sydd angen cymorth eiriolaeth, neu i'r rheini â rhai mathau o anabledd. Mae hyn oherwydd bod cefnogaeth ddigidol yn dibynnu ar bobl yn hunan-adrodd, lle mae'n ddigon posibl y bydd ymweliad cartref yn datgelu lle mae angen cymorth ychwanegol.³²

42. Problem fwy sylfaenol yw pobl yw'r un o gael mynediad at naill ai'r dechnoleg angenrheidiol, boed hynny'n galedwedd fel gliniaduron, tabledi neu ffonau clyfar neu fel sy'n broblem mewn sawl man yng Nghymru, yn enwedig lleoliadau mwy gwledig, band eang dibynadwy. Yn ogystal, clywsom fod gwirfoddolwyr yn draddodiadol yn dod o gohort hŷn yn aml a allai fod yn llai cyfarwydd â thechnoleg ddigidol.³³ Roedd hon yn thema benodol a godwyd yn ein grwpiau ffocws gyda gwirfoddolwyr a staff rheng flaen.

43. Dywedodd CGGC wrthym fod angen i ni gydnabod nad yw un byd digidol yn addas i bawb. Ac mewn gwirionedd, nid yw digidol yn addas i bawb.³⁴ Ynghyd â rhanddeiliaid eraill, fe wnaethant dynnu sylw hefyd at bwysigrwydd defnyddio dulliau cyfathrebu mwy traddodiadol, a'r ffôn yn arbennig:

"I remember having a conversation with Tegwen, who runs Merched y Wawr, who said, 'Do you know, Ruth, what's really come into fashion in the last few weeks?' And I said,

³¹ COV VS 07 Tystiolaeth ysgrifenedig Fforwm Cyllidwyr Cymru, paragraff 2.10

³² COV VS 13 Tystiolaeth ysgrifenedig Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 29

³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [128]

³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [19]

‘What’s that then, Tegwen?’ She said, ‘The phone.’ And she said, ‘I don’t even mean the mobile phone—landline.’ For an awful lot of people, especially in locations where there is no good broadband or no good digital system, or if people haven’t got kit, then actually being able to talk on the phone really came back into a new lease of life, I think, especially in those early days of the first UK-wide national lockdown.”³⁵

44. Ar y llaw arall, clywsom hefyd fod technoleg ddigidol yn cael gwared ar rai rhwystrau mewn gwirionedd ac yn arwain at ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol, a’i gwneud hi’n haws cysylltu â phobl ledled Cymru. Dywedodd CGGC:

“Digital is helping people to reach out, engage, organise, deliver activities, and even fundraise. Overnight, people are discovering digital solutions that previously would have been seen as impossible. A whole range of service are going online creating possibilities for the longer term. We have seen collaboration across organisational and sectoral boundaries – people working together to focus on the immediate crisis, putting traditional barriers aside.”³⁶

45. Dywedodd Conffederasiwn y GIG hefyd fod dulliau digidol wedi arwain at gefnogi mwy o bobl dros ardal ddaearyddol ehangach heb yr anawsterau teithio a thrafnidiaeth arferol sy’n gallu digwydd mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae hyn wedi golygu bod mwy o gefnogaeth wedi’i darparu, heb unrhyw gost ychwanegol, gan arwain at gael mwy o werth a throsoledd o arian cyhoeddus.³⁷

46. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi symudiad y sector i ddigidol, gyda’r gronfa argyfwng gwasanaethau gwirfoddol ar gael i helpu gwasanaethau i symud i ddarpariaeth ddigidol. Roedd hyn yn unol â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru na ddylai unrhyw ddinesydd gael ei adael ar ôl wrth fabwysiadu’r dull digidol yn gyntaf hwnnw. Cydnabu bod hyn wedi bod yn broblem ac yn her benodol i’r sector ond ei fod wedi ymateb mewn modd anhygoel.³⁸

Cyfathrebu

47. Chwaraeodd y sector gwirfoddol rôl amhrisiadwy wrth rannu negeseuon hanfodol â chymunedau a’r bobl a gefnogant, yn enwedig ar ddechrau’r pandemig. Dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wrthym sut yr oedd hon yn rôl hanfodol a phwysig ym Mhowys, yn enwedig oherwydd y materion trawsffiniol. Helpodd y sector gwirfoddol i bwysleisio bod y GIG yn dal i fod ar agor i gleifion fel arfer a helpodd y Bwrdd i gefnogi mentrau hunanofal ac atal.³⁹

48. Dywedodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe mai un o’u blaenoriaethau oedd cyfathrebu gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol. Aethant ati i ailwampio eu gwefan, i gynnwys micro-safle COVID-19,

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [20]

³⁶ COV VS 08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC

³⁷ COV VS 13 Tystiolaeth ysgrifenedig Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 8

³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [8]

³⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [27]

gydag adrannau'n canolbwyntio ar wirfoddoli; lle gallai unigolion gael gafael ar gymorth; a gwybodaeth ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector.⁴⁰

49. Yn ein **grwpiau ffocws**, clywsom am yr heriau a wynebwyd gan rhai grwpiau o ran lledaenu gwybodaeth. Dywedodd cyfranogwyr wrthym am yr her o ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf yn aml; a bod dyblygu weithiau rhwng cyfathrebu ar lefel leol a chenedlaethol.

50. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym mai un o'r heriau oedd nifer y canllawiau a'r amrywiaeth ohonynt a oedd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddechrau a thrwy gydol y pandemig. Amlinellodd sut yr oeddent wedi defnyddio eu fforwm polisi a sefydlwyd eisoes, sydd â thros 60 o sefydliadau iechyd a gofal,⁴¹ i rannu gwybodaeth â sefydliadau fel CGGC, a Macmillan, gan alluogi'r sefydliadau hynny i ddosbarthu'r wybodaeth honno o fewn eu sianeli cyfathrebu ac i ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

51. Amlygodd Race Council Cymru her benodol o sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn yr ystod lawn o ieithoedd a siaredir yng Nghymru. Roedd angen iddynt gyfieithu gwybodaeth i nifer cynyddol o ieithoedd. Mae hwn yn fater y maent wedi ei drafod gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roeddent yn dweud eu bod nhw wedi cael llawer o drafodaethau ynglŷn â sut mae lliniaru'r rhwystr iaith hwn.⁴²

Yr effaith ar y sector

52. Gan fod y sector gwirfoddol wedi camu i'r adwy trwy gydol y pandemig, mae'n amlwg bod y cyfuniad o gyfyngiadau cysylltiedig â COVID-19 a galw cynyddol am wasanaethau wedi cael effaith sylweddol ar y sector. Disgrifiodd tystion i ni beth oedd hyn yn ei olygu mewn termau ymarferol. Mae un o'r prif effeithiau wedi bod ar incwm a chyllid, a byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ym mhennod 6.

53. Dywedodd CGGC fod y pandemig, yn y bôn, wedi cynyddu caledi yng Nghymru, gan arwain at fwy o alw am holl wasanaethau'r sector gwirfoddol. Er bod y sector wedi ymateb i'r angen hwn, roedd wedi gwneud hynny ar gost wirioneddol. Aethant ymlaen i ddweud bod y sector yn llai abl i helpu'r bobl hynny y maent yn gweithio gyda nhw ar yr un pryd ag y mae'r galw am eu gwasanaethau ar ei fwyaf.⁴³

54. Esboniodd Helpforce Cymru, ynghyd ag eraill fel yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau⁴⁴, fod mwyafrif y grwpiau gwirfoddol wedi oedi gweithgareddau ar unwaith cyn mynd ati wedyn i ailystyried, adolygu, asesu risg, ailwrpasu mewn rhai achosion, ac yna ailgyflwyno. Mae'r cyfnod hwn o gnoi cil wedi arwain at sefyllfa lle mae staff bellach yn gwneud yr hyn y byddai gwirfoddolwyr wedi'i wneud o'r blaen o bosibl oherwydd bod y staff eisiau amddiffyn gwirfoddolwyr a'u cadw'n ddiogel a gartref.⁴⁵

⁴⁰ COV VS 15 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [54]

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [200]

⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [6]

⁴⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [116]

⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [28]

55. Dywedodd CLILC hefyd fod staff a gwirfoddolwyr wedi blino.⁴⁶ Ategodd EYST a Race Council Cymru hyn wrth sôn am y broblem o staff a gwirfoddolwyr yn chwythu eu plwc. Dywedodd EYST fod pwysau'r broblem o chwythu plwc a straen wedi cael ei deimlo gan unigolion a gan grwpiau cymunedol o ganlyniad.⁴⁷ Disgrifiodd RCC deimlad o chwythu plwc ymhlith ei wirfoddolwyr ei hun hefyd.⁴⁸ Soniodd y Rhwydwaith Cydgynhyrchu hefyd am lefel yr ansicrwydd a'r straen cysylltiedig yn gwneud niwed mawr i lesiant ac iechyd meddwl ar draws y sector. Wrth gyflwyno cefnogaeth i'r sector, dywedodd y Rhwydwaith na ddylid gwneud hynny mewn ffordd sy'n creu tomen bellach o waith a straen. Roeddent eisiau sicrwydd, a ffyrdd o fod yn hyblyg.⁴⁹

Ein barn ni

56. Mae'r sector gwirfoddol wedi chwarae rhan amhrisiadwy gydol y pandemig. Mae'r digwyddiadau wedi dangos pa mor hanfodol yw'r sector o ran cefnogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau statudol, yn ogystal â darparu cefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n helaeth at angen lleol. Mae'r sector wedi dangos cryn ystythder ac ymatebolrwydd, ac mae angen cipio a harneisio hyn i gyd fel y gallwn adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol.

57. Er ei bod yn bwysig i ni ddysgu'r gwersi ar gyfer cynllunio ar gyfer argyfwng yn y dyfodol, mae'n bwysig hefyd ein bod yn defnyddio'r profiadau hyn i lywio arferion, perthnasoedd a strwythurau gwaith wrth inni symud trwy adferiad ac ailadeiladu i'r normal newydd ar ôl y pandemig. Gobeithio y bydd y profiadau hyn yn sicrhau na chymerir y sector gwirfoddol yn ganiataol yn y dyfodol.

58. Unwaith y byddwn allan o'r argyfwng uniongyrchol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ar y profiadau hyn i sicrhau bod cynlluniau argyfwng y dyfodol yn ystyried yn llawn y rôl y gall ac y dylai'r sector gwirfoddol ei chwarae. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ymgysylltu llawn a chynhwysfawr â'r trydydd sector fel y gellir cydgynhyrchu cynlluniau yng ngwir ystyr y gair a thynnu ar gryfderau'r sector.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu rôl y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys:

- Nodi a chydabod yn glir rôl hanfodol y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau;
- Rhannu arferion gorau o'r ymateb i'r pandemig a'r llifogydd yn 2020; ac
- Asesu i ba raddau y mae'r sector gwirfoddol wedi'i integreiddio i strwythurau cynllunio ar gyfer argyfwng ffurfiol ac anffurfiol a sut y gellir cryfhau partneriaethau.

⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [6]

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [194]

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [216]

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [40]

59. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r symudiad tuag at wasanaethau digidol ym mhob sector, ac mae'r sector gwirfoddol wedi gorfod addasu i hyn yn gyflym. Fel y nodwn, er bod hyn wedi cyflwyno rhai newidiadau cadarnhaol wrth ddarparu gwasanaethau, ac wedi cynyddu cysylltedd mewn rhai mannau, mae hefyd wedi eithrio rhai pobl ac nid yw pob gwasanaeth yn gweithio mewn fformat digidol. Mae yna rai pryderon hefyd ynghylch diffyg sylfaenol band eang i rai, ac mae hon yn broblem arbennig mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn poeni mai'r rhai mwyaf agored i niwed fydd y rhai lleiaf tebygol o allu cael mynediad at wasanaethau digidol. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau yn cynnwys mynediad at ddyfeisiau neu fand eang, neu ddiffyg sgiliau neu hyder i gyfathrebu'n ddigidol. Mae angen mecanweithiau a rhwydweithiau ar lefel leol i sicrhau bod y bylchau hyn yn cael eu cau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol a'i gynorthwyo i fynd i'r afael â'r rhaniad digidol hwn, gan adeiladu ar waith y prosiect **Cymunedau Digidol Cymru** mae'n ei gefnogi.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i sicrhau bod y strategaeth ddigidol sydd ar y gweill ar gyfer Cymru yn adlewyrchu gwaith y sector gwirfoddol yn llawn a'r symud tuag at ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.

4. Gweithio mewn partneriaeth

Er bod y darlun ledled Cymru yn un cymysg, roedd yn amlwg bod yr argyfwng mewn rhai mannau wedi bod yn sbardun i waith partneriaeth, gan chwalu seilos traddodiadol. Roedd hyn yn golygu bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol, ac yn arwain at ganlyniadau gwell.

60. Ym mharagraffau 7 - 17 gwnaethom amlinellu strwythurau cyfredol y sector gwirfoddol a oedd ar waith cyn y pandemig. Fel y nodwyd gennym, bu'r strwythurau hyn yn bwysig wrth alluogi'r sector gwirfoddol i gyfarwyddo ei waith yn y ffordd orau bosibl yn ystod misoedd cynnar y pandemig.

61. Buom yn ystyried llawer o dystiolaeth yn amlinellu gwahanol brofiadau o weithio mewn partneriaeth ledled Cymru. Roedd llawer yn esiamplau o arferion gorau. Er enghraifft, clywsom sut yr oedd y Groes Goch Brydeinig wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Ambiwylans St John Cymru i redeg y gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau i bobl a oedd yn gwarchod. Dros gyfnod o chwe mis, fe wnaethant ddosbarthu 4,100 o bresgripsiynau ar draws 33 o fferyllfeydd ledled Cymru, gan ddweud bod ganddynt gysylltiadau cryfach o ganlyniad i hyn.⁵⁰

62. Tynnodd Ambiwylans St John Cymru sylw at y bartneriaeth benodol hon hefyd, a dywedodd eu bod yn bwriadu adeiladu ar y berthynas hon, yn enwedig mewn perthynas â'r:

"mass vaccination programme requirements from health boards. BRC and SJAC have unique skill sets and working in partnership enables a more holistic approach and response from the third sector to health boards."⁵¹

63. Clywsom hefyd am y strwythurau yng Ngogledd Cymru a ddaeth â'r holl bartneriaid craidd ynghyd. Mae Mantell Gwynedd yn aelod o Is-grŵp Cymru Gydnerth y Gogledd, sy'n cael ei gydlynw gan Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'n dwyn ynghyd:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y chwe awdurdod lleol;
- Y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol; a
- Heddlu Gogledd Cymru

64. Cyfarfu'r grŵp hwn yn wythnosol i ddechrau ac mae bellach yn cyfarfod yn fisol gan ddarparu'r lle sydd ei angen ar gyfer y trafodaethau a'r dulliau gweithredu ar y cyd rhanbarthol ehangach. Yn ogystal â

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [113 -114]

⁵¹ [COV VS 25 Tystiolaeth ysgrifenedig Ambiwylans St John Cymru](#)

bod ar y grŵp rhanbarthol hwn, mae Mantell Gwynedd yn rhan o Grŵp Cydnerthedd Gwynedd, sydd hefyd yn cynnwys yr awdurdod lleol, cymdeithasau tai ac eraill. Fe wnaethant ddisgrifio hwn fel fforwm amhrisiadwy i hyrwyddo gweithio ar y cyd, osgoi dyblygu a cheisio dulliau cydgysylltiedig o ymdrin â heriau cymunedol. Dywedwyd bod hyn wedi gweithio'n dda.⁵² Lle mae strwythurau rhanbarthol a lleol o'r fath yn gweithio'n effeithiol, dylid dysgu gwersi, a lle bo hynny'n briodol dylid efelychu strwythurau o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru, fel yr ydym wedi awgrymu yn Argymhelliad 3.

65. Am fwy o enghreifftiau o arferion da byddem yn cyfeirio pobl at yr enghreifftiau yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar ein [gwefan](#).

66. Soniodd cyrff statudol, fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, am y modd y gwnaeth y pandemig gyflymu gwaith partneriaeth a dod â darpariaeth gwasanaethau ynghyd mewn ffordd fwy integredig.⁵³ Mae tystiolaeth CLILC⁵⁴ a Chonffederasiwn GIG Cymru⁵⁵ yn amlinellu enghreifftiau penodol o weithio mewn partneriaeth o safbwynt yr awdurdod lleol a'r GIG.

67. Er gwaethaf llawer o enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol, roedd consensws eang bod y darlun ledled Cymru wedi bod yn amrywiol ac yn gymysg, yn dibynnu'n bennaf ar ba mor effeithiol oedd partneriaethau cyn y pandemig. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau:

"Practical cooperation at community level was often good with local authorities though willingness to trust community groups has been very mixed. Pre-existing relationships (which contributed to levels of trust) were a major predictor of close working links during Lockdown. However, the crisis did help breakdown some of the pre-crisis barriers to co-operation such as poor communication, risk aversion and silo working, as people in both the statutory and voluntary sectors were driven overwhelmingly by the crisis to do things differently."⁵⁶

68. Tynnodd CGGC sylw hefyd at yr amrywioldeb ledled Cymru. Roedd yr enghreifftiau o arferion gwael yn cynnwys gwneud penderfyniadau o'r brig i lawr o fewn cyrff cyhoeddus gan eithrio'r sector gwirfoddol a heb ymgysylltu â dinasyddion. Roeddent yn galw am ddysgu gwersi i sicrhau bod yr arferion da yn dod yn arfer cyffredin, gan dynnu sylw at gomisiynu ystywyth a rhannu data fel meysydd sydd wedi gweithio'n effeithiol.⁵⁷

Heriau gweithio mewn partneriaeth

69. Er bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr ymateb i COVID-19; ni fu heb ei heriau. Yn ôl CLILC, er bod cysylltiadau lleol wedi bod yn adeiladol ac yn effeithiol gan mwyaf, bu

⁵² [COV VS 12 Tystiolaeth ysgrifenedig Mantell Gwynedd](#)

⁵³ [COV VS 11 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 23](#)

⁵⁴ [COV VS 16 CLILC, paragraffau 25 - 27](#)

⁵⁵ [COV VS 13 Confederasiwn GIG Cymru, paragraffau 11-19](#)

⁵⁶ [COV VS10 Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#)

⁵⁷ [COV VS 08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC](#)

rhai tensiynau rhwng partneriaid, gyda'r rhain yn digwydd amlaf lle'r oedd pwysau cyllido neu gyfyngiadau o ran capasiti.⁵⁸

70. Yn ôl EYST, rhaid oedd cael adnoddau er mwyn bod mewn partneriaeth ac ymrwymo i bartneriaethau ag unrhyw sefydliad, gan ddweud hefyd ei bod hi'n debygol bod gan gyrff cyhoeddus ddisgwyliadau afrealistig wrth iddynt geisio meithrin partneriaethau â grwpiau cymunedol. Tynnwyd sylw ganddynt at yr her o wirfoddolwyr yn gorfod mynychu cyfarfodydd ac ymgysylltu â phobl, pan nad ydynt yn cael eu talu ac nad yw'n rhan o'u gwaith bob dydd.⁵⁹

71. Amlygodd EYST hefyd fod cysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes (sydd o'r dystiolaeth a glywsom wedi rhagweld i raddau helaeth effeithiolrwydd tebygol gwaith partneriaeth yn ystod y pandemig) rhwng y sector iechyd a sector cymunedol BAME yn wan. Credent fod hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r grwpiau yn y sector hwn yn llawer llai, heb ddigon o adnoddau ac nad ydynt wedi bodoli cyhyd. Felly mae angen cefnogaeth a help ar y rhan hon o'r sector i aeddfedu go iawn ac ennill ei phlwyf.⁶⁰

72. Tynnodd Ambiwylans St John Cymru sylw hefyd at heriau gyda'r gwahaniaethau rhwng Byrddau Iechyd a'r ffordd y gweithredant. Roedd hyn yn her iddynt wrth i'w gwirfoddolwyr weithio ar draws yr holl Fyrddau Iechyd a nodwyd ganddynt fod cefnogi'r holl Fyrddau Iechyd yn golygu gweithio mewn gwahanol ffordd a chyda sawl cyswllt, a bod angen seilwaith ychwanegol er mwyn rheoli a chydlyn ymateb effeithiol.⁶¹ Byddwn yn trafod gwirfoddoli yn fanylach ym Mhennod 5.

Cydgynhyrchu

73. Roedd pwysigrwydd cydgynhyrchu yn thema arall yn ein tystiolaeth drwyddi draw. Mae cydgynhyrchu atebion yn arwain at ymatebion sy'n diwallu angen lleol yn well.

74. Dyma ddiffiniad y Rhwydwaith Cydgynhyrchu o gydgynghyrchu:

"the partnership working and the sharing of power and responsibility; the shared decision making between people who provide services and people who are accessing those services—so, that equity and that partnership between professionals and citizens...."⁶²

75. Yn ôl y Rhwydwaith, er bod yr egwyddorion hyn yn cael eu mabwysiadu ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae lefelau cynnydd y gwaith yn amrywio. Er bod y sefydliadau hynny a oedd eisoes yn defnyddio egwyddorion cydgynhyrchu yn parhau i wneud hynny yn eu hymateb i'r pandemig, clywsom fod sefydliadau eraill yn llai parod i fabwysiadu ffordd newydd o weithio wrth ddelio ag argyfwng. Felly parhaodd llawer o sefydliadau i wneud penderfyniadau yn ganolog. Gan fyfyrir ar y sefydliadau hynny, dywedodd y Rhwydwaith Cydgynhyrchu wrthym:

⁵⁸ [COV VS 16 CILLC, paragraff 16](#)

⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [210]

⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [211]

⁶¹ [COV VS 25 Tystiolaeth ysgrifenedig Ambiwylans St John Cymru](#)

⁶² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [45]

"It was just not the time and place for them to do it, so they kept on with the pattern of, 'Well, let's do two', or, 'Let's do four and let's make decisions centrally and roll them out'."

63

76. Soniodd tystion eraill am bwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion. Dywedodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fod profiadau'r pandemig yn taflu goleuni ar y berthynas rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth; a bod hwn yn gyfle i fanteisio ar y berthynas honno a'i chefnogi, gyda hyn yn agor y drafodaeth ynglŷn â sut y gall pawb weithio gyda'i gilydd i wneud Cymru yn lle gwell i fyw.⁶⁴

77. Roedd y Dirprwy Weinidog yn gweld profiadau COVID-19 fel cyfle i gryfhau'r cyfleoedd i sefydliadau cynrychioladol roi eu barn yn uniongyrchol gan bobl sydd wedi byw drwy'r profiad, ac yna dylanwadu ar bolisi go iawn.⁶⁵

Ein barn ni

78. Mewn rhai lleoedd ledled Cymru gwelwyd gwaith partneriaeth cryf ac effeithiol. Fodd bynnag, bu gormod o amrywioldeb. Roedd effeithiolrwydd yn dibynnu ar ba mor gadarn oedd partneriaethau lleol cyn y pandemig. Yn benodol, mae rôl yr awdurdod lleol wrth sicrhau bod y perthnasoedd hyn wedi'u sefydlu a / neu eu cynnal, yn hollbwysig. Ar ôl i'r argyfwng presennol ddod i ben, credwn fod cyfle i ddysgu o'r arferion gorau ledled Cymru er mwyn cael gwared ar yr amrywioldeb hwn a sicrhau bod gwaith partneriaeth yn fwy effeithiol ledled Cymru gyfan.

79. Mae hefyd yn ymddangos yn glir bod gwaith partneriaeth wedi'i wella yn yr ardaloedd hynny lle mae cydgynhyrchu yn digwydd mewn ffordd real ac ystyrlon. Rydym yn derbyn y pwyntiau a wnaed gan y Rhwydwaith Cydgynhyrchu nad cychwyn pandemig byd-eang digynsail oedd yr amser i'r sefydliadau hynny nad oeddent yn gyfarwydd â'r cysyniad neu nad oedd ganddynt y wybodaeth na'r arbenigedd i ymgymryd â chydgyhyrchu. Credwn fod angen i'r egwyddorion hyn fod yn rhan annatod o systemau i sicrhau bod cyrff statudol yn dechrau ystyried y dull hwn. Byddai hyn hefyd yn golygu, mewn sefyllfa o argyfwng yn y dyfodol, y byddai cydgynhyrchu a dulliau seiliedig ar gryfder yn cael eu hymgorffori mewn prosesau ac y byddai'r canlyniadau'n fwy effeithiol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn ystod y pandemig. Dylai'r adolygiad nodi arferion da y gellir eu hefelychu ledled Cymru ac ystyried a oes angen cryfhau mecanweithiau ffurfiol i sicrhau bod cydgynhyrchu a gwaith partneriaeth ystyrlon rhwng cyrff statudol, cyrff anstatudol, a dinasyddion.

⁶³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [45]

⁶⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [269]

⁶⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [24]

5. Gwirfoddoli

Gwirfoddolodd degau o filoedd o bobl i helpu i gefnogi'r GIG a'r ymateb brys yn ehangach. Roedd yr ymchwydd mewn diddordeb yn un o'r pethau cadarnhaol i ddod o fisoedd cynnar y pandemig. Ond ni ddaeth heb ei broblemau ymarferol. Mae angen harneisio'r ysbryd cymunedol hwn i sicrhau y gellir ei droi'n ddifidend gwirfoddoli hirdymor.

"Volunteers aren't paid not because they're worthless, but it's because they're priceless."⁶⁶

80. Nododd CGGC y cyd-destun hanesyddol:

"Wales has a long-standing history of volunteering, mutual aid and voluntary action, especially at a community level. This has been reinforced throughout the last six months during the coronavirus pandemic (and the flooding as a consequence of Storm Dennis in February)."⁶⁷

81. Pwysleisiodd hefyd y seilwaith gwirfoddoli cyson a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y DU. Rydym wedi archwilio seilwaith ehangach y sector ym Mhennod 2, a'r rôl bwysig y mae hyn wedi'i chwarae wrth helpu'r sector gwirfoddol i chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i'r pandemig.

Gwirfoddoli a'r pandemig

Yr "ymchwydd" mewn gwirfoddoli

82. Un o'r ymatebion mwyaf gweladwy a chadarnhaol i'r pandemig yn ystod yr wythnosau cynnar oedd awydd cymaint o bobl i wirfoddoli'n ffurfiol, neu i sefydlu grwpiau cydfuddiannol lleol iawn i helpu i gefnogi eraill yn eu cymunedau eu hunain. Roedd hyn yn amlwg ledled Cymru. Gwelsom filoedd o bobl yn chwilio am gyfleoedd ffurfiol; tra bod llawer o bobl eraill yn defnyddio dulliau fel Facebook neu WhatsApp i ddarparu cefnogaeth i gymdogion ac eraill yn eu cymunedau.

83. O ran niferoedd, mae'n anodd darparu nifer cyffredinol dibynadwy o wirfoddolwyr. Roedd llawer yn digwydd o dan y radar wrth i bobl ymateb i angen lleol yn y ffyrdd mwyaf anffurfiol. Dywedodd

⁶⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [142]

⁶⁷ COV.VS.08.Tystiolaeth ysgrifenedig.CGGC

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fod nifer y gwirfoddolwyr yn ddigysail.⁶⁸ Er i Helpforce Cymru ddweud bod eu data yn dangos rhai niferoedd a thueddiadau clir, gyda 18,000 o bobl wedi cofrestru i wirfoddoli ers mis Mawrth, roeddent yn cydnabod mai rhan fach iawn yn unig o'r darlun yw hyn oherwydd byddai'r holl gymorth cydfuddiannol, anffurfiol yn gweithredu'n hollol wahanol." Pwysleisiodd Helpforce Cymru hefyd na fyddai eu ffigurau'n cynnwys y rhai a oedd wedi gwirfoddoli'n uniongyrchol gyda'r GIG, gan ddweud ei bod hi'n rhyfeddol nad oeddent wedi gallu ateb cwestiynau gan Weinidogion fel, 'A oes angen mwy o wirfoddolwyr arnoch yn y gwasanaeth iechyd?' Yn ôl Helpforce Cymru, mae'r data yn dalcen caled ac yn broblem anodd i'w datrys ac mae'n debyg bod angen ymchwil bellach yn enwedig er mwyn osgoi ffurfioli'r anffurfiol.⁶⁹

84. Dywedodd Helpforce Cymru fod ymateb torfol gwirfoddolwyr wedi datgelu cymorth ymarferol cyhoeddus, cyn ychwanegu bod yr ymchwydd mewn diddordeb hwn hefyd wedi:

"...created its problems, in that our infrastructure systems have been overwhelmed and unable to channel this community resource as quickly and effectively as one would like. So maybe individual volunteers experienced frustration for not being able to be given anything to do and not understanding why this was the case."⁷⁰

85. Soniodd bron pob un o'r ymatebwyr i'n hymchwiliad, gan gynnwys cyfranogwyr y grŵp ffocws, am yr heriau ymarferol o reoli'r brwdfrydedd gwirfoddoli hwn. Roedd hyn yn mynd y tu hwnt i'r broblem ymarferol gychwynnol o ddyrannu pobl i rolau priodol - roeddent hefyd yn ymwneud â materion fel diogelu; rheoli pobl sy'n newydd i wirfoddoli; yr heriau rhwng gwahanol ddulliau o reoli gwirfoddolwyr ar draws ardaloedd yng Nghymru, a gwahanol sectorau.

86. Un o'r heriau mwyaf oedd y diffyg cyfatebiaeth rhwng nifer y bobl sy'n gwirfoddoli; a'r rolau sydd ar gael. Dywedodd Helpforce Cymru fod y cyfleoedd ffurfiol yn brin oherwydd yr angen i ailasesu ac ailddiffinio neu addasu rolau a phrosesau presennol, neu i ddatblygu rhai newydd.⁷¹ Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y GIG. Amlygodd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg hyn hefyd gan ddweud eu bod wedi derbyn 991 o ymholiadau gwirfoddoli mewn pedwar mis ond bod y cyfleoedd wedi lleihau'n ddramatig ac ar un adeg dim ond dau gyfle gwirfoddoli gweithredol oedd ym Mro Morgannwg.⁷² Er i Mantell Gwynedd ddweud eu bod wedi cofrestru dros 600 o bobl newydd dros bythefnos, ac er i hynny gymryd cryn dipyn o gydlynw, "y newyddion da ydy bod hanner—dros 50 y cant—o'r *recruits* gwirfoddoli newydd yna wedi cael eu lleoli i helpu unigolion a chymunedau o fewn y pythefnos cyntaf."⁷³

87. Dywedodd gwirfoddolwyr a staff rheng flaen yn ein **grwpiau ffocws** fod hyn yn her allweddol hefyd. Dywedodd cydlynnydd gwirfoddolwyr wrthym fod hon yn her enfawr a'u bod fel arfer yn derbyn 200-220 o atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol am gymorth, ond ym mis Ebrill cawsant 1,700 o atgyfeiriadau.

⁶⁸ **COV VS 01 Tystiolaeth ysgrifenedig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, paragraff 3.9**

⁶⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [61]

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [111]

⁷¹ **COV VS 23 Tystiolaeth ysgrifenedig Helpforce Cymru**

⁷² **COV VS 05 Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg**

⁷³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [109]

88. Dywedodd Conffederasiwn y GIG ei bod yn amlwg bod gwersi i'w dysgu o'r profiad, gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt orfod delio â'r lefel hon o gapasiti i'w roi ar waith. Roeddent yn teimlo y bydd angen i ddysgu ar gyfer y dyfodol ystyried beth yw'r rolau, y tasgau neu'r swyddi neu'r elfennau o waith allweddol lle'r ydym am ddefnyddio gwirfoddolwyr yng nghyd-destun ymateb brys i'r pandemig.⁷⁴ Roedd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe yn cefnogi'r angen i ddysgu o'r pandemig, gan gynnwys cael cronfa sefydlog o wirfoddolwyr brys i bob pwrpas, ar gyfer pa sefyllfa bynnag sy'n codi. Roeddent yn teimlo bod sicrhau bod modd gwneud hyn yn gyflym yn dibynnu ar gynnal cysylltiadau â fforymau cynllunio ar gyfer argyfwng.⁷⁵

89. Fel i ni sôn ym mharagraff 72, roedd yn ymddangos bod y mater o gydgyssylltu gwirfoddolwyr yn arbennig o ddifrifol yn y GIG. Dywedodd Ambiwylans St John Cymru fod y diffyg cydgysylltu canolog wedi arwain at golli cyfleoedd i roi cymorth mewn rhai ardaloedd, ac aethant ati i gymharu hyn â gwirfoddolwyr y GIG yn cael eu cydgysylltu'n ganolog yn Lloegr. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i Ambiwylans Cymru Sant Ioan ddewis pa feysydd gweithgaredd i geisio eu blaenoriaethu a'u cefnogi yn hytrach na gallu rhoi ein sail sylweddol o wirfoddolwyr ar waith yn y ffordd orau bosibl i Gymru yn gyffredinol.⁷⁶ Fodd bynnag, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod eu haelodau'n croesawu'r dull cydgysylltiedig o wirfoddoli trwy Gwirfoddoli Cymru. Yn ôl y Conffederasiwn, roedd nifer sylweddol o wirfoddolwyr wedi cael eu defnyddio mewn rolau iechyd a gofal yn ystod y pandemig.⁷⁷

90. Nododd Helpforce Cymru fod gwahaniaethau sylweddol rhwng byrddau iechyd ac felly ei bod yn anodd cael darlun cenedlaethol oherwydd nad yw adrodd ar wirfoddoli yn nodwedd amlwg yn adroddiadau'r byrddau iechyd i Lywodraeth Cymru. Roeddent yn cydnabod bod gan fyrddau iechyd brosesau sefydledig ar waith cyn y pandemig, ond iddynt gael trafferth gyda phrosesau nad oeddent wedi'u cynllunio ar gyfer rhoi gwirfoddolwyr ar waith yn gyflym.⁷⁸

Newid mewn demograffeg gwirfoddolwyr a chynnal y brwdfrydedd cychwynnol

91. Clywsom hefyd fod y cyfyngiadau symud, ynghyd â'r cynllun ffyrlo, wedi arwain at newid yn y math o berson sy'n gwirfoddoli, gyda newid o bobl hŷn i bobl iau yn gwirfoddoli mewn niferoedd mawr. I lawer a wirfoddolodd ar ddechrau'r pandemig, hwn oedd y tro cyntaf iddynt wneud hynny. Dywedodd yr RNIB fod y rhan fwyaf o'u gwirfoddolwyr cyn y pandemig yn bobl hŷn a bod gan tua chwarter rhyw fath o nam ar y golwg, gan ychwanegu mai'r ddau grŵp hyn sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig.⁷⁹

92. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau fod y newid hwn mewn demograffig bellach yn newid yn ôl gan fod y pandemig wedi cyflwyno cohort newydd o wirfoddolwyr iau, a bod llawer ohonynt yn ei chael hi'n anodd dal ati i wirfoddoli ar ôl codi'r cyfyngiadau symud, er bod gwirfoddolwyr

⁷⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [27]

⁷⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [27]

⁷⁶ COV VS 25 Tystiolaeth ysgrifenedig Ambiwylans St John Cymru

⁷⁷ COV VS 13 Conffed erasiwn GIG Cymru, paragraff 20

⁷⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [13]

⁷⁹ COV VS 22 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB Cymru

hyn a oedd wedi bod yn gwarchod yn araf ddychwelyd.⁸⁰ Dywedodd y Groes Goch Brydeinig, wrth i fisoedd y gaeaf agosáu ac wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith, ei bod yn bwysig bod anghenion y rhai sydd angen cymorth yn cael eu diwallu o hyd.⁸¹

93. Nododd y Dirprwy Weinidog fod mwy o amrywiaeth o bobl yn gwirfoddoli yn ystod COVID-19, gyda mwy o fenywod yn gwirfoddoli mewn gwirionedd, ac mae pobl BAME yn gwirfoddoli.⁸²

94. Yn gysylltiedig â'r mater hwn mae cynnal brwdfrydedd fel bod pobl yn parhau i fod yn weithgar ar ôl y pandemig. Dywedodd CGGC fod nawr yn gyfle go iawn i gynnal hyn yn y tymor hwy, a bod y cynnydd cychwynnol mewn gwirfoddoli yn rhoi cyfle i adeiladu ar yr ymateb hwn.⁸³ Dywedodd Mantell Gwynedd:

".... if there's one thing that I wish we could do from this pandemic it would be to put all that volunteer enthusiasm into a jar and put the lid on it and open it a little bit every time we need some of that in the future. If only we could do that."⁸⁴

95. Credent mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ddarparu cefnogaeth lwyr i wirfoddolwyr. Maent bellach yn ceisio mesur faint o wirfoddolwyr sy'n parhau â'u gwirfoddoli.⁸⁵ Credai'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu mai'r allwedd i gynnal brwdfrydedd oedd creu'r lle a'r seilwaith i bobl wneud eu pethau, galluogi'r sgysiau hynny, meithrin y berthynas rhwng y rheng flaen a dinasyddion. Byddai hynny'n helpu i gadw'r egni gwirfoddoli.⁸⁶

96. Dywedodd CGGC fod y wybodaeth ddiweddaraf gan CGSau yn awgrymu bod 40% o wirfoddolwyr yn debygol o ddal ati.⁸⁷ Dywedodd Helpforce Cymru fod cadw gwirfoddolwyr yn fater perthnasol iawn y mae CGSau yn ymwybodol iawn ohono. Yn benodol, maent yn cefnogi ochr fwy anffurfiol gwirfoddoli, mewn ffordd nad oeddent yn ei wneud cynt. Dywedodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe eu bod wrthi'n asesu sut i droi brwdfrydedd yn wirfoddoli hirdymor gyda sefydliadau sefydledig ar draws y sector, gan ddarparu gwaddol cadarnhaol a pharhaol.⁸⁸

Cymorth cydfuddiannol a grwpiau cymunedol

97. Fel i ni sôn ym mharagraff 82, un o nodweddion yr ymchwydd mewn gwirfoddoli oedd yr ymateb ar lawr gwlad, gyda phobl yn ymateb i angen lleol yn eu stryd, eu hardal neu eu cymuned gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu WhatsApp i gefnogi pobl yn y ffordd fwyaf anffurfiol. Disgrifiodd Hafod sut maent wedi gweld hyn ar draws eu hardaloedd:

⁸⁰ [COV VS 10 Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#)

⁸¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [121]

⁸² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [32]

⁸³ [COV VS 08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC](#)

⁸⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [143]

⁸⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [143]

⁸⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [66]

⁸⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [57]

⁸⁸ [COV VS 15 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe](#)

"Incredible support, door knocking, where they know that somebody is living alone and is vulnerable; that's been very clear. Neighbours have been terrific in delivering food parcels, either organised by Hafod or other support agencies or people just doing a bit of home cooking and delivering. We've had mutual support where people need some help or just need somebody to talk to; that has been very, very notable."⁸⁹

98. Dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fod mwy na 120 o grwpiau cymunedol wedi'u sefydlu, sy'n gyfystyr â miloedd o oriau yn cefnogi cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, pobl a oedd yn gwarchod neu'n ynysu gartref yn ystod y cyfyngiadau symud.⁹⁰

99. Yn ôl Sefydliad Cymunedol Cymru, er bod llawer o'r gwaith hwn yn digwydd y tu ôl i'r llen ac yn anffurfiol, roedd wedi cael effaith leol sylweddol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd angen unrhyw gyllid neu ychydig bach iawn o gyllid arnynt yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae'r math hwn o gymorth yn codi cwestiynau pwysig i'r sector a chymdeithas ynghylch ein disgwyliadau o ran llywodraethu da a diogelu. Awgrymwyd bod angen rhestr wirio llywodraethu fwy cymesur ar gyfer grwpiau a sefydlwyd yn gyflym o bosibl a fyddai'n sicrhau y gallent ymgymryd â gweithgarwch buddiol o'r fath heb ormod o fiwrocratiaeth.⁹¹

100. Dywedodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe⁹² a GVS⁹³ fod grwpiau newydd wedi gofyn iddynt am gyngor ar sut i ymgorffori neu wedi cysylltu gydag ymholiadau llywodraethu cyffredinol. Dywedodd EYST ei bod yn bwysig rhoi'r ffocws yn ôl yn fwy ar grwpiau cymunedol lleol a llai a chefnogi'r rheini i sicrhau bod y gwirfoddoli y gallant ei gefnogi yn ddiogel, a'n bod yn meithrin eu gallu i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli diogel. Yn ôl profiad EYST, mae rhai CGSau wedi gwneud hyn yn dda iawn tra bod eraill yn fwy cyndyn o roi arweiniad.⁹⁴

101. Fel i ni sôn ym mharagraff 96, mae'r gwaith o gefnogi'r grwpiau newydd hynny sy'n dymuno sefydlu'n fwy ffurfiol eisoes wedi cychwyn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol ffrydiau o gyllid a allai gefnogi'r grwpiau hynny.⁹⁵ Dywedodd hefyd fod rhaid cynnwys yr holl bethau hyn yn y gwersi a ddysgwyd.⁹⁶

Ein barn ni

102. Mae nifer y bobl a gamodd ymlaen i helpu eraill yn ystod y pandemig wedi bod yn ysbrydoledig. Mae'r holl weithredoedd o garedigrwydd unigol hyn wedi cyfuno i gefnogi gwasanaethau statudol a chymunedau mewn ffordd sydd wedi bod yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth wedi'i

⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [126]

⁹⁰ COV VS 11 Tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, paragraff 9

⁹¹ COV VS 03 Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Cymunedol Cymru

⁹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [147]

⁹³ COV VS 05 Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

⁹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [220]

⁹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [21]

⁹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [13]

dderbyn. Yng Nghymru roeddem eisoes yn cychwyn o sylfaen dda, gyda strwythur cadarn i helpu i gefnogi'r gwirfoddoli hwn.

103. Gall gwirfoddoli chwarae rhan annatod yn yr adferiad ar ôl y pandemig hefyd. Mae'n bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu o'r ymchwydd cychwynnol mewn gwirfoddoli er mwyn cefnogi'r adferiad yn y ffordd orau, a sicrhau bod pobl yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Felly, rydym yn cymeradwyo argymhelliad CGGC bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi sut y gall gwirfoddoli gefnogi hyn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall gwirfoddoli gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar ôl COVID-19.

104. Un o gryfderau'r ymateb gwirfoddol, waeth trwy wirfoddoli ffurfiol, neu'r grwpiau cymorth cydfuddiannol sydd wedi tyfu ledled Cymru, neu hyd yn oed y cymorth mwy anffurfiol a ddarperir gan ffrindiau a chymdogion yw ei fod wedi dangos mewn ffordd uniongyrchol iawn, bwysigrwydd atebion lleol i faterion lleol. Gobeithiwn y bydd hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn gwaith partneriaeth a ddisgrifir ym Mhennod 4, yn sail ar gyfer gwaith pellach i helpu i ymwreiddio grymuso cymunedau yng ngwir ystyr y gair ledled Cymru, ac i sicrhau bod pobl leol yn ymgysylltu ac yn cyfranogi yn y dasg o ddod o hyd i'r atebion cywir i'r problemau sy'n wynebu eu cymunedau eu hunain.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen o rymuso cymunedau ledled Cymru gyda'r sector gwirfoddol, gan weithredu fel gwladwriaeth alluogi ar gyfer gweithredu cymunedol. Rydym yn cefnogi galwad CGGC y dylai hyn gynnwys Cronfa Cyfoeth Gymunedol a deddfwriaeth i ddarparu mwy o allu i gymunedau gymryd rhan mewn gweithredu lleol.

105. Gwyddom y bydd rhai o'r grwpiau cymorth cydfuddiannol a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig yn rhedeg eu cwrs ymhen hir a hwyr, a byddant naill ai'n cau neu'n rhoi'r gorau i'w gweithgareddau. Fodd bynnag, mae rhai, fel y mae'r dystiolaeth wedi dangos, eisoes yn ceisio ffurfioli a chyfansoddi eu hunain fel grwpiau cofrestredig. Fodd bynnag, efallai y bydd eraill am barhau ar y sail anffurfiol iawn iddynt ddechrau arno. Penderfyniad i bob grŵp unigol fydd hwn. Un o bryderon y grwpiau mwy anffurfiol hyn oedd sicrhau eu bod yn ymwybodol o wybodaeth sylfaenol fel diogelu, cadw pellter cymdeithasol sylfaenol, fel y gallent wneud eu gwaith da heb roi eu hunain na'r bobl y maent yn eu cynorthwyo mewn perygl. Credwn felly ei bod yn bwysig bod llwybr clir ar gyfer cyfeirio pobl at y lefel briodol o gyngor sy'n diwallu eu hanghenion a lefelau'r strwythurau a'r ffurfioldeb a ddymunir. Gwyddom fod Cyngorau Gwirfoddol Sirol wedi darparu hyn mewn rhai lleoedd, ond bu darlun cymysg ledled Cymru, ac mae'n bwysig bod gan bobl fynediad at y wybodaeth a'r canllawiau angenrheidiol, waeth ym mha ran bynnag o Gymru y maent.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i alluogi grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd yn ystod y pandemig sydd am

barhau ac sydd wedi bod yn cynorthwyo eu cymunedau lleol yn llwyddiannus, i dderbyn y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu gwaith.

6. Cyllid a Chymorth

Clywsom ystod eang o dystiolaeth am effeithiolrwydd y cymorth sydd ar gael yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Er bod cyllid yn hanfodol i hyn, darparwyd cymorth ar ffurfiau eraill, gan gynnwys cyngor ac arweiniad. Mae pryderon sylweddol ynghylch cynaliadwyedd tymor hwy llawer o grwpiau / sefydliadau yn y sector gwirfoddol, ac roedd rhai o'r pryderon yn bodoli cyn y pandemig.

Colli incwm

106. Fel i ni amlinellu ym Mhennod 3, mae'r pandemig wedi cael effaith helaeth ar y sector. Roedd un o'r effeithiau mwyaf difrifol yn ymwneud â newidiadau mewn incwm. Rydym yn ymwybodol bod hyn wedi effeithio ar wahanol sefydliadau mewn gwahanol ffyrdd. Amlygodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol hyn:

"While many organisations have had to at least temporarily cease activities to a greater or lesser extent, those that rely on the delivery of those activities to sustain an income have been amongst the hardest hit. To this end, it is medium-sized and larger organisations that have borne the brunt, albeit in different ways. While smaller grassroots organisations may have experienced a hiatus, they tend to rely on modest income and the goodwill of volunteers and members rather than significant funding."⁹⁷

107. Cyn y pandemig, bu symudiad tuag at amrywio cyllid yn y sector. Meddai Fforwm Cyllidwyr Cymru:

"...the irony in all of this is that those organisations that had done the right thing, they'd gone out, they got a more diverse funding model, they were trading, they were raising funds from the public—it's those organisations that have fared worse, whereas ones that were just operating on grants have been largely unaffected in terms of funding."⁹⁸

108. Cytunodd y Moondance Foundation, gan ddweud mai'r rhai a oedd wedi amrywio eu hincwm oedd y rhai a gafodd eu heffeithio fwyaf yn aml. Dywedwyd bod incwm y sefydliadau hyn wedi dod i ben o ganlyniad i'r amrywio hwn a bod arloesi wedi bod yn beth drwg i'w sefyllfa ariannol o dan yr amgylchiadau hyn.⁹⁹ Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru mai'r sefydliadau hynny a oedd yn dibynnu'n drwm ar gyllid grant a oedd y rhai mwyaf diogel yn ariannol gan mwyaf yn ystod y pandemig.¹⁰⁰

⁹⁷ COV VS 01 Tystiolaeth ysgrifenedig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, paragraff 3.1

⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [264]

⁹⁹ COV VS 04 Tystiolaeth ysgrifenedig Moondance Foundation

¹⁰⁰ COV VS 13 Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 26

109. Dywedodd CGGC yr amcangyfrifir y bydd elusennau ledled y DU yn colli 24% o gyfanswm eu hincwm am y flwyddyn. Maent wedi amcangyfrif y bydd hyn oddeutu £620 miliwn ar gyfer yr elusennau hynny sydd â phencadlys yng Nghymru. Codwyd pryderon ganddynt hefyd fod newidiadau mawr mewn incwm codi arian yn broblem arbennig i elusennau llai.¹⁰¹ Fel y nodwn ym mharagraff 10, mae gan Gymru gyfran fwy o elusennau llai, sy'n golygu y bydd yr effaith hon yn cael ei theimlo'n gryf gan y sector gwirfoddol yng Nghymru.

110. Disgrifiodd Ambiwylans St John Cymru'r effaith ar ei helusen ei hun, a sut yr oedd y gwir effaith wedi dod yn fwy clir wrth i'r pandemig ddatblygu. Collodd yr elusen ddigwyddiadau cenedlaethol, ynghyd â gorfod cau'r elfen hyfforddi sy'n rhoi incwm i'r elusen a daeth gwirfoddoli arferol i ben. O ganlyniad, nododd amcanestyniadau ar ddiwedd mis Mawrth 2020 fod yr elusen yn wynebu colled incwm disgwyledig ar gyfer 2020 o fwy na £2.5 miliwn, tra bod y galw am wasanaethau'r elusen yn parhau i gynyddu.¹⁰²

111. Dywedodd y Comisiwn Elusennau fod y pryderon mwyaf cyffredin gan elusennau cofrestredig yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Daeth yr ystadegau hyn o'r adroddiadau digwyddiadau difrifol a gawsant, ond maent yn nodi nad yw'r ffigurau hyn o reidrwydd yn cynrychioli cyfran yr holl elusennau sy'n cael trafferthion.¹⁰³

112. Daw ffynhonnell incwm graidd llawer o elusennau o siopau elusennol. Bu'n rhaid iddynt gau ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, ac yna yn ystod y cyfnod atal byr yn hydref 2020, a'r cyfyngiadau symud pellach a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon fod cau ei siopau wedi creu tol enfawr yn ei incwm a'i allu i gefnogi ymchwil sy'n arbed bywydau. Roeddent yn croesawu'r cymorth sydd ar gael gan gynnwys y rhyddhad ardrethi o 100%, a mesurau ynghylch casglu rhenti, ond dywedwyd bod bylchau yn y cymorth o hyd. Yn benodol, dywedwyd bod manwerthwyr elusennol mawr wedi methu â manteisio ar gymorth fel Cronfa Grant Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden Llywodraeth y DU. Mae'r gronfa hon yn caniatáu i fanwerthwyr hawlio hyd at £25,000 am bob siop fanwerthu gymwys. Er hynny, yn ôl y Sefydliad mae cymhwyso rheolau Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â manwerthu elusennol yn golygu bod terfyn o ychydig dros £700,000 ar y cymorth hwn. O ganlyniad, dim ond cymorth sy'n cyfateb i oddeutu £1,300 y siop y gall ei hawlio. Ac eto yn y cyfnod atal byr diweddar yn unig, mae'r elusen yn amcangyfrif iddi golli gwerthiannau gwerth £320,000 ar draws ei 35 siop yng Nghymru.¹⁰⁴

113. Ymhlith y ffynonellau incwm eraill sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol y mae codi arian; a thaliadau am wasanaethau. Dywedodd yr RNIB eu bod yn rhagweld bwlch cyllido posib o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm o godi arian yn gyffredinol. Yn ôl yr elusen, roedd y golled incwm hon yn deillio o ganslo digwyddiadau her a thorfol, gohirio gweithgareddau codi arian wyneb yn wyneb a lleihau incwm o ewyllysiau.¹⁰⁵ Amlygodd WISERD ystod o ffynonellau incwm eraill gan gynnwys codi tâl am wasanaethau uniongyrchol, i ddefnyddwyr y gwasanaeth (ee ffioedd presenoldeb) a grwpiau proffesiynol eraill (ee hyfforddiant), llogi cyfleusterau (ee ystafelloedd), a thrwy ystod o weithgareddau elusennol (ee

¹⁰¹ [COV.VS.08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC](#)

¹⁰² [COV.VS.25 Tystiolaeth ysgrifenedig Ambiwylans St John Cymru](#)

¹⁰³ [COV.VS.24 Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr](#)

¹⁰⁴ [COV.VS.21 Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Prydeinig y Galon](#)

¹⁰⁵ [COV.VS.22 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB Cymru](#)

o werthu cacennau i siopau elusen). Dywedwyd y bydd y cyfan o'r rhain naill ai wedi diflannu'n llwyr neu wedi lleihau'n sylweddol.¹⁰⁶

Cymorth a oedd ar gael yn ystod y pandemig

114. Mae amrywiaeth o gymorth wedi bod ar gael i'r sector gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Ar 27 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa gychwynnol o £24 miliwn i gefnogi'r sector. Mae Cronfa Ymateb Covid-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn cefnogi tri llinyn o weithgarwch:

- Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector - helpu'r sector yn ariannol trwy'r argyfwng trwy ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol a thalu biliau a lleddfu llif arian;
- Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol – cynorthwyo sefydliadau yn y gymuned sy'n cydlynu gwirfoddolwyr; a'u helpu i dalu costau allan o boced gwirfoddolwyr;
- Cronfa Galluogi Seilwaith y Trydydd Sector - cynyddu capasiti dros dro Cefnogi Trydydd Sector Cymru i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu gwefan Gwirfoddoli Cymru.¹⁰⁷

115. Yna disodlwyd y Gronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol gan Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol ym mis Awst 2020. Nod y gronfa hon yw "cefnogi adferiad teg a chyfiawn i bobl yng Nghymru." Fe'i gweinyddir gan CGGC.¹⁰⁸

116. Mae'r sector gwirfoddol hefyd wedi gallu cyrchu cynlluniau cymorth ehangach eraill Llywodraeth Cymru fel y cynlluniau grantiau busnes, a'r Gronfa Cadernid Economaidd, yn ogystal â chynlluniau Llywodraeth y DU fel y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (neu "ffyrlo" fel mae'n cael ei adnabod).

117. Clywsom gan ystod o gyllidwyr am sut y gwnaethant ymateb i'r pandemig. Dywedodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wrthym eu bod, o fewn tair wythnos i gyflwyno'r cyfyngiadau symud, wedi defnyddio eu cyllid i gefnogi'r ymateb. O ganlyniad, fe wnaethant flaenoriaethu ceisiadau gan sefydliadau a oedd yn gwneud y canlynol:

- "supporting people who were at high risk from COVID-19
- supporting communities most likely to face increased demand and challenges as a direct result of measures to prevent the result of COVID-19
- connecting communities and supporting communities to work together to respond to COVID-19."¹⁰⁹

¹⁰⁶ COV VS 20 Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD)

¹⁰⁷ Llywodraeth Cymru, Coronafeirws (COVID-19): Cymorth i'r trydydd sector [fel ar 16 Rhagfyr 2020]

¹⁰⁸ Gwefan CGGC, Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol [fel ar 16 Rhagfyr 2020]

¹⁰⁹ COV VS 01 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyllid Cymunedol y Loteri Genedlaethol, paragraff 2.2

118. Thema gyffredin gan y cyllidwyr oedd yr awydd i estyn allan at sefydliadau a grwpiau newydd. Dywedodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ei bod wedi cefnogi nifer sylweddol o sefydliadau newydd.¹¹⁰ Dywedodd Sefydliad Cymunedol Cymru ei fod wedi ariannu grwpiau mewn rhannau o'r cymunedau nad oedd ganddo gysylltiadau gyda nhw cynt yn sgil ei ymdrech i geisio sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg yn ddaearyddol ac ar draws gwahanol gymunedau.¹¹¹ Byddwn yn edrych yn benodol ar y materion sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer grwpiau BAME mewn adran ar wahân isod.

119. Clywsom hefyd gan y cyllidwyr am sut yr aethant ati i weithio gyda'i gilydd i rannu manylion cyllid i geisio sicrhau bod yr arian a oedd ar gael yn cael ei ddyrannu yn y ffordd orau bosibl. Dywedodd y Moondance Foundation fod hyn wedi bod yn effeithiol iawn.¹¹² Dywedodd Fforwm Cyllidwyr Cymru fod gweithio gyda'i gilydd yn golygu pe na gallai cyllidwr penodol ariannu gweithgarwch, y gallent nodi cyllidwyr eraill a allai wneud hynny.

120. Clywsom gan ystod o wahanol sefydliadau gwirfoddol am sut maent wedi defnyddio'r gwahanol linyddau cyllido hyn. Dywedodd Mantell Gwynedd wrthym na fyddai dim o'u gwaith wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru, a bod cronfa argyfwng y gwasanaethau gwirfoddol yn hanfodol bwysig.¹¹³ Roedd y gronfa hon wedi eu galluogi i gynyddu eu horiau staff i helpu gyda grwpiau cymunedol; a sefydlu a rheoli cynllun grantiau bach ar gyfer y sector yng Ngwynedd.¹¹⁴

121. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau fod cyllid gan y llywodraeth yn ddigonol er bod yna elfennau dryslyd o fiwrocratiaeth o bryd i'w gilydd; a bod cyllid gan ymddiriedolaethau a'r loteri yn ddigonol a hyblyg gan ddod i'r casgliad na fu, mewn sawl ffordd, erioed yn haws cael gafael ar gyllid hyblyg ar gyfer gweithio yn y gymuned.¹¹⁵

122. Soniodd tystion am gymhlethdodau ymgeisio am arian hefyd, fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys¹¹⁶ a ddywedodd mai'r her i'r sector oedd ceisio cael gafael ar wahanol ffynonellau cyllid gyda gwahanol brosesau ymgeisio a gofynion monitro. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod rhai sefydliadau wedi colli allan ar gyfleoedd cyllido oherwydd bod staff ar ffyrlo, tra bod eraill wedi cynyddu eu cyllid am fod gan staff fwy o amser i gyflwyno ceisiadau a mynd ar drywydd cyfleoedd.¹¹⁷

Pwysigrwydd hyblygrwydd cyllido

123. Roedd un o'r prif alwadau gan CGGC yn ymwneud ag ymestyn yr hyblygrwydd cyllido cyfredol yn y tymor hwy:

“Charities have robust accounting systems for restricted and unrestricted funds. Many funders have recently increased flexibility in their grant management. Given the length of

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [222]

¹¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [225]

¹¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [201]

¹¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [111]

¹¹⁴ COV VS 12 Tystiolaeth ysgrifenedig Mantell Gwynedd

¹¹⁵ COV VS 10 Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

¹¹⁶ COV VS 11 Tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, paragraff 15

¹¹⁷ COV VS 13 Conffederasiwn y GIG, paragraff 26

the crisis, and in order to make the most effective use of funds going forwards, consideration should be given to being able to ring-fence and carry forward funds across financial years.”¹¹⁸

124. Ychwanegwyd ganddynt y byddai cael yr hyblygrwydd i gario arian drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf yn hynod ddefnyddiol, gan ddweud y gallai'r sector:

“account and track forward, and if not spent appropriately then to have courses of redress, obviously, to be completely open and transparent in that space.... that would be one really, really valuable lesson that we might be able to hold on to from this period of challenging time.”¹¹⁹

125. Dywedodd Fforwm Cyllidwyr Cymru wrthym am yr addewid COVID-19 a ddatblygwyd gan Rwydwaith Cyllidwyr Llundain, lle mae cyllidwyr yn ymrwmo i gefnogi derbynwyr grantiau trwy fod yn hyblyg gyda grantiau, bod yn hyblyg ynghylch fformat adroddiadau, bod yn hyblyg ynghylch terfynau amser a dangos eich bod yn glust i wrando hefyd.¹²⁰ Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig roeddent yn manylu ar sut yr oedd gwahanol gyllidwyr wedi addasu eu gwaith i gefnogi'r sector gwirfoddol.¹²¹

126. Clywsom gan y Moondance Foundation sut yr oeddent wedi gallu tynnu eu troed oddi ar y brêc a phrosesu grantiau o fewn 48 awr fel bod sefydliadau'n cael gafael ar gyllid yn gyflym. Mae hyn wedi gofyn am lawer iawn o ymddiriedaeth.¹²²

127. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn hyblyg ers dechrau'r pandemig ond gyda'r cafiat bod yr holl fonitro yn bwysig iawn ynglŷn â'r gwariant. Ychwanegodd fod hyblygrwydd cyllid yn un maes y mae angen i ni edrych arno.¹²³

Y darlun cyllid yn y dyfodol

128. Cafwyd rhybudd gan Fforymau Cyllidwyr Cymru nad oes gan gyllidwyr pwll diwaelod o arian i gymryd lle ffynonellau incwm eraill ar gyfer y sector. Dywedwyd y gallai rhai cyrff fel sefydliadau sy'n cael eu hariannu o fuddsoddiadau ddod drwyddi, ac maent yn gallu rhoi eu dwylo'n ddwfn yn eu pocedi ac ariannu. Yn y pen draw, serch hynny, bydd sioc economaidd ehangach yn effeithio arnynt am nad yw'r economi'n darparu mwy o arian ar eu cyfer, ac i raddau, mae'n gêm swm sero ac rydych chi'n dwyn oddi ar Nicw i dalu Nacw. Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr iawn ac mae'n ddibynnol iawn ar ddyfodol yr economi.¹²⁴ Rhybuddiodd Sefydliad Cymunedol Cymru hefyd fod blwyddyn anodd i ddod o ran cyllid.¹²⁵

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [7]

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [84]

¹²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [196]

¹²¹ [COV.VS.07.Tystiolaeth ysgrifenedig Fforwm Cyllidwyr Cymru, paragraffau 2.5.1 - 2.5.3](#)

¹²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [200]

¹²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [60]

¹²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [210]

¹²⁵ [COV.VS.03.Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Cymunedol Cymru](#)

129. Rhannodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau bryderon am y darlun cyllido yn y dyfodol gan ddweud bod arian yfory eisoes wedi'i wario gan gyllidwyr y llywodraeth ac anllywodraethol, a gallai hyn gyfyngu'n ddifrifol ar yr ymateb o ran adferiad.¹²⁶ Yn ôl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, er bod cyllid tymor byr cysylltiedig â COVID-19 yn bwysig, bydd strategaeth ariannu hirdymor ar gyfer y trydydd sector yn gynyddol bwysig i sicrhau cynaliadwyedd a chydnerthedd yn y dyfodol.¹²⁷

130. Amlygodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe yr her sy'n wynebu'r sector wrth i bethau ddychwelyd i normal. Maent wedi sicrhau rhywfaint o arian i gefnogi'r sector i addasu'r ffordd mae'n gweithio ond ychwanegodd fod tirwedd ariannu'r dyfodol yn ansicr. Ac eto, mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y pandemig wedi dangos gwerth enfawr y trydydd sector, mae wedi dangos y gall fod yn ystwyth, datrys problemau lleol yn gyflym a gweithio ar draws ystod eang o wahanol bartneriaid i ddiwallu anghenion unigolion yn y cymunedau.¹²⁸

131. Dywedodd CLILC fod yr ansicrwydd parhaus sy'n wynebu'r sector, yn enwedig y rhai sy'n codi arian trwy gydol y flwyddyn, yn golygu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymestyn y cymorth cyllido sydd ar gael, yn enwedig mewn perthynas â'r costau sy'n deillio o'r pandemig. Er eu bod yn croesawu'r gefnogaeth ychwanegol sydd wedi bod ar gael i elusennau cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau, dywedwyd bod angen mwy o fuddsoddiad wrth i'r argyfwng hwn ymestyn dros gyfnod hirach.¹²⁹

Cyllid ar gyfer y sector gwirfoddol BAME

132. Roedd lefel y cyllid sydd ar gael i grwpiau BAME yn bwnic yr aethom ati i'w archwilio gyda'n rhanddeiliaid. Fel i ni bwysleisio yn ein hadroddiad blaenorol ar COVID-19 ac anghydraddoldebau, mae'r pandemig a'r ymateb wedi effeithio'n anghymesur ar y gymuned BAME.¹³⁰ Roeddem yn awyddus i ddeall beth oedd hyn yn ei olygu i'r rhan hon o'r sector gwirfoddol. Yn ei adroddiad diweddar ar gyfer Llywodraeth Cymru, tynnodd yr Athro Ogbonna sylw at ymchwil a oedd yn dweud bod naw o bob deg sefydliad yn y sector gwirfoddol a chymunedol dan arweiniad BAME mewn perygl o gau yn ystod y tri mis nesaf. Ychwanegodd fod angen mynd i'r afael â chynaliadwyedd sefydliadau ar lawr gwlad.¹³¹

133. Dywedodd EYST wrthym, er bod cyllid a chyfleoedd a chyfleoedd wedi'u targedu, mae yna deimlad cryf nad yw'r rhan hon o'r sector yn cael cefnogaeth ddigonol ar hyn o bryd ac y gellid gwneud mwy.¹³²

134. Roedd Race Council Cymru yn cytuno bod blaenoriaethau cyllido wedi newid o fewn cyfnod byr o amser, ond nid oedd sicrwydd am ba hyd y bydd hyn yn para. Mae cyllidwyr wedi newid eu

¹²⁶ COV VS 10 Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

¹²⁷ COV VS 11 Tystiolaeth ysgrifenedig, Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, paragraff 21

¹²⁸ COV VS 15 Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

¹²⁹ COV VS 16 CLILC, paragraff 20

¹³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig**, Awst 2020

¹³¹ **Llywodraeth Cymru. Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19 y Prif Weinidog. Adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol, Mehefin 2020, paragraff 51**

¹³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [195]

blaenoriaethau ac wedi canolbwyntio ar y pandemig i helpu i leddfu'r pwysau ar gymunedau. Ond, wedi dweud hynny:

"However, because of the enormity of the disproportionate effects of this pandemic and the existing socioeconomic effects as well on top of that, there is the need for increased funding and ensuring a wider distribution in such a way that the smaller BAME organisations are able to reach funding as quickly as possible."¹³³

135. Clywsom am sut mae dau ddigwyddiad byd-eang COVID-19 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi cydgyfeirio gan arwain at sylweddoliad ymhlith cyllidwyr bod angen canolbwyntio cyllid ar grwpiau cymunedol BAME. Dywedodd EYST fod cyfran sylweddol o'r cyllid wedi'i neilltuo o ganlyniad i hyn, a bod rhai cyllidwyr yn ei gwneud hi'n ofynnol ariannu sefydliadau dan arweiniad BAME. Tynnodd EYST sylw at y ffaith bod rhai o'r cyllidwyr mawr, fel Plant Mewn Angen, Cronfa'r Loteri Fawr, CGGC a Comic Relief i gyd wedi creu cronfeydd cyllido brys wedi'u targedu at grwpiau cymunedol BAME.¹³⁴

136. Fodd bynnag, fel gyda rhannau eraill o'r sector, mae pryderon ynghylch dibyn posibl yn y flwyddyn ariannol nesaf.¹³⁵ Dywedodd y Race Council Cymru hefyd fod rhai o'r prosiectau sydd wedi'u hariannu wedi bod yn rhai byrdymor iawn.¹³⁶

Cyllid craidd a defnyddio cronfeydd wrth gefn

137. Codwyd y mater o ddarparu cyllid craidd ychwanegol i helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector gan nifer o dystion. Dywedodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe:

"even small amounts of core funding will help people survive and then be able to rebuild, develop new strategies, post this. But if there's nothing at the core, then it is really, really difficult for people to move on."¹³⁷

138. Dywedodd y Groes Goch Brydeinig, er bod y trydydd sector yn ddibynnol iawn ar ddwyn ynghyd cyllid tymor byr, mae dull o'r fath yn cyflwyno ystod o heriau gan gynnwys cadw staff; a datblygu ac esblygu gwasanaethau i ddarparu'r gwasanaeth gorau. Yn eu barn nhw, roedd angen pecynnau cyllido mwy hirdymor a mwy cynaliadwy yn y dyfodol.¹³⁸

139. Cynhaliodd Sefydliad Cymunedol Cymru sgwrs fawr am gyllid gyda'r trydydd sector yng Nghymru ac er i'r sgwrsiau hyn ddigwydd cyn y pandemig, dywed Sefydliad Cymunedol Cymru fod y negeseuon yn fwy perthnasol nag erioed erbyn hyn. Canfu'r prosiect hwn fod grwpiau elusennau a chymunedau "eisiau i arianwyr flaenoriaethu arian craidd a phartneriaethau tymor hir." Gwelsant fod "bron iawn pob" sefydliad y buont yn siarad â hwy yn dweud mai arian oedd eu pryder pennaf, a bod angen mwy o arian craidd arnynt i sicrhau eu bod yn "dal i fodoli."¹³⁹ Yn eu tystiolaeth i ni, nodwyd ganddynt y dylid

¹³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [225]

¹³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [234]

¹³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [234]

¹³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [230]

¹³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [159]

¹³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [146]

¹³⁹ Sefydliad Cymunedol Cymru, adroddiad "Yn Uchel ac yn Groch"

defnyddio eu canfyddiadau i annog cyllidwyr i gefnogi gweithgareddau craidd yn hytrach na phrosiectau, sy'n golygu bod gan sefydliadau ryddid i addasu mewn sefyllfaoedd sy'n newid drwy'r amser.¹⁴⁰

140. Dywedodd Fforwm Cyllidwyr Cymru ei bod yn debygol y bydd cyllid hyblyg mwy eang, yn cynnwys cyllid ar gyfer costau craidd, o ganlyniad i'r pandemig a newidiadau yn nulliau gweithredu cyllidwyr.¹⁴¹

141. Yn ôl Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, er y gallai fod gan sefydliadau mwy gronfeydd wrth gefn y gallant ddibynnu arnynt aeth y Gronfa ymlaen i ddweud nad oedd hwn yn fater syml gan fod y gronfeydd hynny yn aml wedi eu clymu fel buddsoddiadau ariannol a bod y darlun economaidd ehangach ar hyn o bryd yn golygu bod tynnu arian o'r buddsoddiadau hynny yn debygol o roi elw digon tila. Nodwyd ganddynt hefyd, er bod y ffaith bod cymorth ychwanegol ar gael yn gadarnhaol, mae ymgeisio am y cyllid ychwanegol hwn a'i sicrhau yn cymryd llawer o waith ac egni ychwanegol, ac yn ychwanegu at faich sector sydd eisoes dan bwysau.¹⁴²

142. Dywedodd y Moondance Foundation wrthym fod gan nifer o elusennau gronfeydd wrth gefn da cynt ond eu bod yn cael eu disbyddu. Bydd hyn yn cael effaith tymor hwy ar elusennau,¹⁴³ oherwydd gallai gymryd blynyddoedd cyn i ni weld yr effaith ariannol lawn ar y sector. Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru y bydd gostyngiad mewn incwm yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar gronfeydd ariannol wrth gefn a bod hyn yn profi pa mor bwysig fydd cael strategaeth ariannu hirdymor ar gyfer y sector.¹⁴⁴

143. Mae gronfeydd wrth gefn yn cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol sefydliadau. Yn amlwg, mae'n rhy gynnar o hyd i gael dealltwriaeth lawn o effaith y pandemig ar gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae ymchwil gychwynnol gan Brifysgol Birmingham a Phrifysgol Southampton yn awgrymu bod gan leiafrif sylweddol o elusennau gronfeydd wrth gefn a fyddai'n eu galluogi i oroesi am ddim ond tri mis neu lai. Er ei fod yn amrywio yn dibynnu ar y math o sefydliad a'i faint, mae sefydliadau mwy yn arbennig yn fwy tebygol o fod â chronfeydd wrth gefn sy'n para'n hirach.¹⁴⁵

Mesur gwerth cymdeithasol y sector gwirfoddol

144. Mae'r sector gwirfoddol yn wynebu sawl her mewn perthynas â gostyngiad tebygol mewn incwm a chyllid, tra bod y galw am wasanaethau yn parhau i dyfu. Felly bydd yn dod yn bwysicach fyth deall a sicrhau'r gwerth gorau am arian yn y sector. Clywsom am bwysigrwydd cynyddol mesur gwerth cymdeithasol buddsoddiad, a sut y bydd hyd yn oed yn fwy perthnasol mewn byd ar ôl y pandemig.

145. Mae Mantell Gwynedd yn diffinio gwerth cymdeithasol fel deall gwerth newidiadau i fywydau pobl. Mae rhoi gwerth ar y newidiadau hyn yn golygu eu bod yn gallu buddsoddi yn yr hyn sy'n darparu'r buddiannau cymdeithasol mwyaf fel eu bod yn creu newid hyd yn oed mwy cadarnhaol ym mywydau

¹⁴⁰ [COV VS 03 Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Cymunedol Cymru](#)

¹⁴¹ [COV VS 07 Tystiolaeth ysgrifenedig Fforwm Cyllidwyr Cymru, paragraff](#)

¹⁴² [COV VS 01 Tystiolaeth ysgrifenedig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol paragraff 3.1](#)

¹⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [218]

¹⁴⁴ [COV VS 13 Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 34](#)

¹⁴⁵ [COV VS 26 Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Southampton](#)

pobl. Ar hyn o bryd maent yn mesur gwerth cymdeithasol Cyllid Brys y Sector Gwirfoddol a gafodd dau sefydliad trydydd sector yng Ngwynedd.¹⁴⁶

146. Clywsom fod Mantell Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn y gwaith hwn, cyn y pandemig, ac wedi datblygu gwefan Gwerth Cymdeithasol Cymru. Clywsom ganddynt w fod y gwaith hwn yn "eithriadol o bwysig". Maent wedi bod yn mesur gwerth cymdeithasol "ers rhai blynnyddoedd" ac mae'n "bwysig iawn wrth symud ymlaen i'r cyfnod ar ôl COVID, fel ein bod ni'n gallu sicrhau ein bod ni'n buddsoddi ein hadnoddau yn y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf."¹⁴⁷ Clywsom fod mesur gwerth cymdeithasol yn eich galluogi i fuddsoddi yn y meysydd lle byddwch yn cael yr enillion mwyaf ac yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gymunedau a bywydau pobl.¹⁴⁸

Ein barn ni

147. Mae'r cyllid sydd wedi bod ar gael i'r sector gan Lywodraethau Cymru a'r DU, yn ogystal â chyllidwyr, wedi cael croeso mawr ac mae wedi helpu'r sector i oroesi misoedd cychwynnol yr argyfwng i raddau helaeth. Mae'r cyllid wedi helpu'r sector i chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i'r pandemig a chefnogi cymunedau ledled Cymru.

148. Deallwn fod yr hinsawdd ariannol yn anhygoel o ansicr. Mae'r cyfuniad o effaith economaidd y pandemig, ynghyd â newidiadau sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r UE, yn golygu nad yw'r dyfodol yn glir ar hyn o bryd, a'i fod yn debygol o fod yn heriol.

149. Felly, mae yna lawer o nerfusrwydd ynglŷn â pha gyllid a fydd ar gael i'r sector yn y flwyddyn ariannol nesaf. Er ein bod yn deall y pwysau ariannol ar Lywodraeth Cymru, credwn y dylid sicrhau bod cyllid pellach ar gael i'r sector i'w wneud yn fwy cadarn ac i sicrhau y gall barhau i chwarae rhan weithredol yn yr ymateb i'r argyfwng, a'r adferiad. Mae'n amlwg o'n hymchwiliad bod y sector gwirfoddol wedi gwneud mwy na'i siâr wrth gefnogi cymunedau ledled Cymru trwy ddyddiau tywyllaf y pandemig, ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Os nad oes gan y sector gwirfoddol ddigon o adnoddau, mae'n debygol y bydd hyn yn rhoi pwysau ar wasanaethau statudol. Felly mae'n fuddsoddiad darbodus gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 9. Gan adeiladu ar Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gynyddu cydnherthedd y sector a'i allu i chwarae ei ran wrth roi cymorth yn y fan a'r lle i gymunedau yn ystod yr adferiad. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

150. Mae'n amlwg bod y dull hyblyg o ariannu hefyd wedi helpu'r sector wrth iddo ymateb i COVID-19. Clywsom y galwadau gan CGGC ac eraill y byddai darparu hyblygrwydd cyllido pellach, ac yn benodol caniatáu iddynt gario arian heb ei wario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf yn helpu i leddfu rhai o'r

¹⁴⁶ COV VS 12 Tystiolaeth ysgrifenedig Mantell Gwynedd

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [112]

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [172]

heriau ariannol cychwynnol sy'n eu hwynebu. Cawsom ein darbwyllo gan esboniad CGGC fod gan y sector system gyfrifyddu gadarn a'i fod yn gallu olrhain gwariant yn effeithiol.

151. Mae'r ffordd y mae'r cyllidwyr yng Nghymru wedi dod ynghyd i rannu gwybodaeth a deallusrwydd am ddyfarniadau hefyd yn amlwg wedi cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod cronfeydd yn cael eu rhannu yn y ffordd orau ledled Cymru, o ran angen a daearyddiaeth. Rydym yn cymeradwyo'r ffordd y mae cyllidwyr wedi gwneud hyn, ac yn gobeithio y bydd hyn yn parhau ar ôl y pandemig. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyllidwyr i sicrhau y bydd hyn yn parhau.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Cyllidwyr Cymru i helpu cyllidwyr i barhau i rannu gwybodaeth a chydweithio ar ôl y pandemig.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n briodol, archwilio ac ymchwilio i ganiatáu i gyllid heb ei wario gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

152. Er bod y sefyllfa ariannol yn hynod ansicr i lawer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol mae'n amlwg, mae'n argyfyngus i sefydliadau BAME. Er ein bod yn croesawu'r sylw a roddwyd i grwpiau BAME, a'r ffaith bod cyllidwyr wedi targedu neu glustnodi arian ar gyfer y grwpiau hyn yn benodol, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy. Mae'r rhain yn aml yn sefydliadau llai sy'n cael eu rhedeg â chyllidebau llawer llai a llai o lawer o staff, ond sy'n gwneud gwaith amhrisiadwy o fewn cymunedau. Maent wedi wynebu pwysau cynyddol, gan fod y pandemig wedi effeithio'n andwyol ar y cymunedau sy'n cael eu cefnogi ganddynt. Wrth ystyried opsiynau cyllido ar gyfer y sector yn y dyfodol, mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yn benodol anghenion y grwpiau arbennig hyn.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu sefydliadau sector gwirfoddol BAME, wrth ystyried cyllid ar gyfer y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw rwystrau ychwanegol y gallai grwpiau BAME eu hwynebu wrth gael cyllid a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a gweithio i leihau'r rhwystrau hyn.

153. Nodwn y galwadau o bob rhan o'r sector am i fwy o arian craidd gael ei ddarparu yn y sector. Rydym yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd gofalus rhwng darparu cyllid craidd, a all arwain at fwy o allu i addasu, ond gyda'r risg o droi sefydliadau yn gyrff lled-statudol. Rydym yn ymwybodol hefyd o lawer o sefydliadau heb fawr ddim neu ddim cyllid o gwbl yn gwneud gwaith clodwiw, ond credwn fod angen ystyried a fydd cyllid craidd yn helpu i gynorthwyo sefydliadau'r sector gwirfoddol i gyflawni eu canlyniadau allweddol. Felly, teimlwn fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn a myfyrio arno'n fwy gofalus. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar ganfyddiadau adroddiad Yn Uchel ac yn Groch Sefydliad Cymunedol Cymru, cyn adrodd yn ôl ar hyfywedd a dymunoldeb mwy o gyllid craidd.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a myfyrio ar ganfyddiadau adroddiad **Yn Uchel ac yn Groch** Sefydliad Cymunedol Cymru ac annog cyllidwyr i gefnogi costau craidd fel bod gan sefydliadau y rhyddid i addasu mewn sefyllfaoedd sy'n

bythol newid er mwyn cynnal a datblygu canlyniadau gwasanaethau neu raglenni allweddol.

154. Rydym yn cydymdeimlo â'r galwadau gan Sefydliad Prydeinig y Galon y dylid gwneud newidiadau i sicrhau nad yw'r manwerthwyr elusennol mwy yn cael eu hatal rhag sicrhau rhyddhad grant penodol o ganlyniad i gyfyngiadau Cymorth Gwladwriaethol. Fel un o Aelod-wladwriaethau'r UE, roedd rhaid i'r DU roi Cymorth Gwladwriaethol yn unol â chyfundrefn yr UE. Fodd bynnag, fel y dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon, nid yw trefniadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE yn gymwys i'r DU bellach. Rydym ar ddeall nad yw'r agwedd hon ar Gymorth Gwladwriaethol wedi'i datganoli. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cael ei threfn ei hun, ond yn y cyfamser, rhaid i'r DU gadw at rwymedigaethau rhyngwladol eraill, fel rheolau Sefydliad Masnach y Byd a'r cytundeb a luniwyd yn ddiweddar rhwng y DU a'r UE. Credwn fod gwerth i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y mater hwn oherwydd gall Llywodraeth y DU ddewis mabwysiadu'r un dull gweithredu a arweiniodd at y broblem a ddisgrifiwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon yn y dyfodol, ni waeth unrhyw gyfyngiadau gan reolau cymorth gwladwriaethol yr UE yn y gorffennol.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch effaith rhwymedigaethau rhyngwladol cyfredol mewn perthynas â rheolau Cymorth Gwladwriaethol ar roi cymorth i'r sector manwerthu elusennol.

155. Mae pwysigrwydd mesur effaith ehangach gwariant cyhoeddus yn cael ei gydnabod yn eang. Mae'n amhosibl deall yn llawn pa ymyriadau polisi a gwariant ariannol a fu fwyaf effeithiol heb ystyried y canlyniadau yn y ffordd fwyaf cyfannol. Gwyddom fod gan Mantell Gwynedd arbenigedd ac adnoddau perthnasol y gall eraill yn y sector fanteisio arnynt. Fodd bynnag, credwn fod rôl i Lywodraeth Cymru gefnogi'r gwaith hwn hefyd. I lawer yn y sector gwirfoddol, nid oes ganddynt yr arbenigedd na'r adnoddau i asesu gwerth cymdeithasol eu gwaith yn llawn. Mae hon yn broblem benodol i'r sefydliadau llai, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymwreiddio yn eu cymunedau, ac sy'n cynnig cymorth ar lawr gwlad.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil bellach i asesu gwerth cymdeithasol ei buddsoddiad yn y sector gwirfoddol.

7. Adferiad ac ailadeiladu

Mae gan y sector gwirfoddol ran bwysig i'w chwarae mewn adferiad ac ailadeiladu. Yn benodol, bydd arbenigedd y sector wrth gefnogi gwaith ataliol yn hollbwysig a rhaid ei harneisio'n effeithiol.

156. Roedd yn amlwg iawn gan bawb a roddodd dystiolaeth bod y sector eisoes yn meddwl am y rôl y gall ei chwarae yn yr adferiad a'r ailadeiladu yn ogystal â cheisio ymateb i'r argyfwng o'u blaen. Bydd rhan o hyn yn cynnwys dysgu gwersi o'r pandemig, a pharhau â'r arferion da sy'n gynaliadwy ac yn briodol mewn sefyllfa nad yw'n argyfwng.

157. Nododd CGGC¹⁴⁹ a'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau¹⁵⁰ nifer o feysydd lle y gallai'r sector chwarae ran bwysig, yn eu barn hwy. Roedd y rhain yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i; iechyd meddwl, lleihau tlodi, cymorth cyflogaeth; prosiectau natur a chadwraeth cymunedol; cefnogi pobl ifanc. Byddai'r holl waith hwn wedi'i wreiddio mewn cymunedau lleol, gan ddefnyddio'r wybodaeth leol a'r arbenigedd ar lawr gwlad sy'n gallu bod yn absennol mewn gwasanaethau statudol. Mae ehangder y meysydd lle gall y sector gwirfoddol helpu gyda'r adferiad yn dangos pa mor hanfodol fydd harneisio'r sector, yn enwedig gan y bydd gwasanaethau statudol yn wynebu pwysau cynyddol.

158. Yn ôl Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, yn y gorffennol mae sefydliadau cymunedol yn aml wedi cael eu tanbrizio fel ased a'i bod yn bwysig cydnabod y cyfraniad y gallant ei wneud yn yr hyn a fydd yn gyfnod adfer anodd dros ben.¹⁵¹

159. Roedd cynrychiolwyr y sector statudol, megis CLILC yn cydnabod pwysigrwydd y sector gwirfoddol yn y cyfnod adfer. Dywedodd CLILC y byddai awdurdodau lleol yn ceisio adeiladu ar y gwaith partneriaeth a ddatblygwyd dros y pandemig i adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a chynllunio ar gyfer adferiad cynaliadwy, tymor hwy.¹⁵²

160. Cawsom ein hatgoffa gan dystion, hyd yn oed pan fydd yr argyfwng presennol drosodd, ein bod yn parhau i wynebu nifer o broblemau arwyddocaol fel newid yn yr hinsawdd a diogelwch bwyd, a llwyth o broblemau cenedlaethol a chymdeithasol mawr eraill.¹⁵³ Dywedodd CLILC y bydd ymadael â'r UE, trawsnewid modelau gwasanaeth gan gynnwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac addasu i newidiadau a yrrir gan ddigidol¹⁵⁴ i gyd yn cael effaith sylweddol hefyd.

161. Dywedodd CGGC y bydd annog newid parhaus mewn ymddygiadau a diwylliant i rannu pŵer yn well yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn eu barn hwy, yn meithrin mwy o'r cydnerthedd hwnnw. Mae hyn, law yn llaw ag atgyfnerthu perthnasoedd allweddol rhwng gwahanol sefydliadau lle bo

¹⁴⁹ [COV VS 08 Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC](#)

¹⁵⁰ [COV VS 10 Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#)

¹⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [173]

¹⁵² [COV VS 16 CLILC, paragraff 36](#)

¹⁵³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [173]

¹⁵⁴ [COV VS 08 Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC](#)

angen; a sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn llwyr ymddiried yn eu cydweithwyr yn eu cymunedau¹⁵⁵ yn hanfodol. Cytunodd y Rhwydwaith Cydgynhyrchu y byddai atgyfnerthu perthnasoedd yn meithrin cydnerthedd ac yn golygu y gellir gwella ymatebion, yn ogystal â chreu atebion lleol nid yn unig i broblemau lleol, ond i broblemau cenedlaethol hefyd.¹⁵⁶

162. Amlinellodd y Groes Goch Brydeinig mai eu blaenoriaeth oedd sicrhau bod gwasanaethau ac asedau cymunedol yn cael eu cynnal yn ystod ac ar ôl y pandemig. Tanlinellwyd ganddynt fod yn rhaid i'r ffocws fod ar y rhai mwyaf agored i niwed, ond ei bod yn bwysig cydnabod nad oedd bregusrwydd yn rhywbeth statig ac y byddent, yn ystod yr adferiad, yn asesu bregusrwydd yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y rhai mwyaf agored i niwed.¹⁵⁷

163. Fel yr ydym wedi sôn yn y bennod flaenorol, mae'r hinsawdd ariannol ar gyfer y sector gwirfoddol yn heriol iawn, a dywedodd nifer o dystion gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, y Groes Goch Brydeinig¹⁵⁸ a CGGC wrthym ei bod yn debygol y byddai'r sector yn newid ac o bosibl yn crebachu, oherwydd bydd rhai elusennau a sefydliadau naill ai ddim yn dychwelyd ar ôl COVID-19, neu ni fyddant yn parhau gyda'r gweithgareddau a ddechreuwyd yn ystod y pandemig.

164. Fel yr amlygwyd ym mharagraff 55, soniodd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Moondance Foundation¹⁵⁹ a Race Council Wales¹⁶⁰, fod staff a gwirfoddolwyr wedi blino ac wedi chwythu eu plwc a'i bod yn ymddangos bod hynny'n gyffredin ar draws y sector. Mae pryderon y gallai hyn, ynghyd â phroblemau eraill fel ansicrwydd ynghylch cyllid, amharu ar allu'r sector i chwarae'r rôl lawnaf yn yr adferiad a'r ailadeiladu.

Atal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

165. Thema gyffredin ar draws yr holl dystiolaeth a gasglwyd gennym, ar draws yr holl brif themâu, oedd y rôl y mae'r sector yn ei chwarae mewn gwasanaethau ataliol. Mae'r agenda hon wedi'i chysylltu'n agos â'r dull a nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

166. Dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fod y pum ffordd o weithio yn y Ddeddf yn fframwaith defnyddiol iawn i gefnogi ein cynllunio adferiad hirdymor. Fel rhan o'r cynllunio tymor hwy hwn, maent yn edrych ar rôl y trydydd sector.¹⁶¹

167. Dywedodd y Groes Goch Brydeinig fod strwythurau cyllido wedi bod yn wyneb i waered braidd a heb gael eu targedu at atal yn y gorffennol. Credent fod y pandemig yn gyfle posibl i droi'r strwythurau hyn ar eu pen a dechrau canolbwyntio o ddifri ar waith ataliol.¹⁶²

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [75-76]

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [78]

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁶¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [152]

¹⁶² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

168. Cefnogwyd y farn hon gan Fforwm Cyllidwyr Cymru a oedd yn erfyn am atal y ffocws cul ar ariannu ymateb brys pan allai cyllidwyr edrych i weld peth o'r gwaith anhygoel y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud i atal problem rhag gwaethygu i'r pwynt lle mae'n rhaid i wasanaethau statudol ymyrryd. Roeddent o'r farn nad oedd effaith y sector gwirfoddol yn aml yn cael ei gweld yn yr ystyr ehangaf.¹⁶³

169. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog mai gwaith ataliol oedd cryfder mawr y sector. Credai mai dyma lle'r oedd cryfder go iawn ac y byddai'r Llywodraeth yn defnyddio ei hadnoddau a'i harweiniad i baratoi'r ffordd.¹⁶⁴

Unigrwydd a theimlo'n ynysig

170. Clywsom mai blaenoriaeth allweddol i'r sector yn yr adferiad fydd mynd i'r afael â'r lefelau uchel o unigrwydd a theimlo'n ynysig mewn cymunedau. Dywedodd y Groes Goch Brydeinig fod unigrwydd wedi gwaethygu yn ystod y pandemig ac y byddai'n cael effaith ehangach ar y sector yn ogystal ag ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.¹⁶⁵ Dywedodd Race Council Cymru fod hyn yn broblem arbennig i henuriaid Windrush, a'u bod wedi gorfod dod o hyd i oriau gwirfoddoli ychwanegol i fynd i'r afael â hyn.¹⁶⁶ Mae'r Groes Goch Brydeinig eisiau gweld gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag unigrwydd fel rhan o'r adferiad¹⁶⁷, ynghyd â chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig.¹⁶⁸

171. Disgrifiodd Tai Hafod sut maent wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn eu cymunedau. Mae'r ap y maent wedi'i ddatblygu ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, Amazon ac Accenture yn swnio'n arbennig o ddiddorol. Dyma'r ap cyntaf ar gyfer unigrwydd a theimlo'n ynysig yn eu tyb nhw.¹⁶⁹

Ein barn ni

172. Mae'n gwbl hanfodol bod pŵer, ystwythder ac arbenigedd y trydydd sector yn cael ei harneisio'n iawn fel rhan o'r adferiad. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, maent wedi dangos y gallant helpu i leddfu pwysau ar wasanaethau statudol, gan ddelio â phroblemau cyn eu bod angen ymateb gan y sector cyhoeddus mewn rhai achosion. Maent hefyd wedi dangos eu bod yn aml yn gallu cynnig atebion effeithlon ac effeithiol i broblemau lleol sy'n ystyried asedau ac anghenion lleol yn well.

173. Er mwyn sicrhau y gall y sector chwarae rôl effeithiol, mae'n bwysig bod cyllid digonol ar gael i'r sector i barhau i ddarparu cymorth mawr ei angen wrth i'r pandemig barhau, ac yna i'r cyfnod adfer dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Mae angen sicrhau'r cyllid hwn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

¹⁶³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [273]

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [73]

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion [92]

¹⁶⁶ **COV VS 17 Tystiolaeth ysgrifenedig Race Council Cymru**

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁶⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

174. Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector fel cyfrwng ar lefel genedlaethol i ddeall yn well y rôl y gall y sector ei chwarae yn yr adferiad. Rydym wedi clywed gydol ein hymholiad am bwysigrwydd partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ystod yr ymateb i'r argyfwng mewn fforymau ffurfiol ac anffurfiol. Ar bob lefel, rhaid i'r partneriaethau hyn fod yn effeithiol. Pan na fydd partneriaethau'n effeithiol, gallai hyn arwain at ymwneud ac ymgysylltu anghyson â'r trydydd sector. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol a dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y sector gwirfoddol yn ymgysylltu'n effeithiol ledled Cymru ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall y sector gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus, meithrin cydnerthedd cymunedol cynaliadwy a llesiant.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn rhaglenni'r sector gwirfoddol sy'n cefnogi'r adferiad, mewn modd tebyg i Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Argymhelliad 18. Mewn gwaith adfer yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob rhan o'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau. Dylai hyn hefyd arwain at fwy o waith partneriaeth y tu hwnt i'r adferiad a chynnwys lleisiau'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

175. Mae gwaith ataliol wrth wraidd llawer o'r hyn y mae'r sector yn ei wneud. Gwelwn yn ei waith lawer o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith, a rhaid adeiladu ar hyn i sicrhau adferiad teg a chyfiawn i Gymru gyfan. Er trwy ein gwaith blaenorol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chraffu cyffredinol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gennym bryderon o hyd ynghylch pa mor gyson y mae ysbryd y ddeddfwriaeth yn cael ei mabwysiadu'n llawn gan bob corff sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae'n ormod o ymarfer ticio'r bocs o hyd yn hytrach na'r newid diwylliannol sydd ei angen.

176. Credwn fod angen mwy o waith i ddeall yn well pa mor eang yw'r newid diwylliannol ar draws cyrff y sector cyhoeddus. Pe bai pob corff sector cyhoeddus yn mabwysiadu ysbryd a llythyren y ddeddfwriaeth, byddai llawer o'r problemau sydd wedi'u codi yn yr adroddiad hwn yn diflannu.

177. Rydym yn rhannu pryderon sylweddol rhanddeiliaid ynghylch lefelau unigrwydd a theimlo'n ynysig ledled Cymru. Roedd hon yn broblem cyn COVID-19, ond mae'r pandemig wedi taflu goleuni arni. Wrth inni symud i adferiad, mae'n hanfodol bod y mater hwn yn parhau i gael sylw. Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r pla hwn, ond ni all wneud hyn ar ei ben ei hun, na heb ddigon o arian a chefnogaeth.

178. Ychydig cyn dechrau'r pandemig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach.** Cafodd y dull gweithredu a amlinellwyd yn y strategaeth ei

groesawu gan y sector gwirfoddol ar y cyfan. Fel sbardun allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig, mae'n bwysig bod effeithiolrwydd y strategaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a'i adrodd arno'n gyhoeddus, fel bod modd dysgu gwersi a gwneud newidiadau os oes angen.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar effeithiolrwydd y strategaeth Cysylltu Cymunedau wrth fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig o fewn 12 mis.

179. Diddorol iawn oedd clywed am brofiad Hafod yn datblygu ap i fynd i'r afael ag unigrwydd. Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld enghreifftiau hefyd o dechnoleg yn cael ei defnyddio i fynd i'r afael â hyn, er enghraifft, cartrefi gofal yn defnyddio technoleg i sicrhau bod preswylwyr yn gallu cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae hwn yn gyfle i ddysgu sut y gall technoleg leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Er ein bod yn cydnabod y problemau ynghylch y rhaniad digidol a drafodwyd ym Mhennod 3, mae'n amlwg bod cyfle i harneisio technoleg i leihau unigrwydd a theimlo'n ynysig.

Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach sut y mae modd defnyddio technoleg newydd, yn cynnwys yr ap sy'n cael ei ddatblygu gan Hafod, i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried problemau'n ymwneud â'r rhaniad digidol a sicrhau bod atebion yn ystyried problemau'n ymwneud â mynediad digidol.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
2 Tachwedd 2020	Ruth Marks, Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Fiona Liddell, Rheolwr, Helpforce Cymru Noreen Blanluet, Cyngorydd Arweiniol, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
2 Tachwedd 2020	Carol Mack, Cadeirydd, Fforwm Cyllidwyr Cymru Rebecca Watkins, Cyfarwyddwr y Sefydliad, Moondance Foundation Richard Williams, Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru John Rose, Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
2 Tachwedd 2020	Kate Griffiths, Cyfarwyddwr Cymru, Y Groes Goch Brydeinig Jas Bains, Prif Weithredwr, Hafod
9 Tachwedd 2020	Nesta Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Confederasiwn GIG Cymru Hayley Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Y Cyngorydd Andrew Morgan, Arweinydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

9 Tachwedd 2020	Amanda Carr, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe Bethan Russell Williams, Prif Swyddog, Mantell Gwynedd Chris Johnnes, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
9 Tachwedd 2020	Patience Bentu, Swyddog Arweiniol Cenedlaethol Ymgysylltu â Chymunedau, Race Council Cymru Rocio Cifuentes, Prif Weithredwr, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST)
16 Tachwedd 2020	Jane Hutt AS, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip Chris Buchan, Pennaeth Polisiâu'r Trydydd Sector a Chymunedau, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
COV VS 01	Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
COV VS 02	Hafod (Bwrdd stori Leaving no one behind COVID-19)
COV VS 03	Sefydliad Cymunedol Cymru
COV VS 04	Moondance Foundation
COV VS 05	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
COV VS 06	Rhwydwaith Cydgynhyrchu
COV VS 07	Fforwm Cyllidwyr Cymru
COV VS 08	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
COV VS 09	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
COV VS 10	Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
COV VS 11	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
COV VS 12	Mantell Gwynedd
COV VS 13	Conffederasiwn GIG Cymru
COV VS 14	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
COV VS 15	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
COV VS 16	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
COV VS 17	Race Council Cymru
COV VS 18	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
COV VS 19	Sefydliad Bevan
COV VS 20	Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD)
COV VS 21	Sefydliad Prydeinig y Galon
COV VS 22	RNIB

COV VS 23	Helpforce Cymru
COV VS 24	Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
COV VS 25	Ambiwlans St John Cymru
COV VS 26	Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Southampton
COV VS 27	Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
COV VS 23a – gwybodaeth ychwanegol gan Helpforce Cymru a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	13 Tachwedd 2020